

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol  
a Deddfwriaethol

Ymchwiliad i Awdurdodaeth ar wahân i  
Gymru

Rhagfyr 2012



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8019  
Ffacs: 029 2089 8021  
E-bost: [PwyllgorMCD@cymru.gov.uk](mailto:PwyllgorMCD@cymru.gov.uk)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012  
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol  
a Deddfwriaethol

Ymchwiliad i Awdurdodaeth ar wahân i  
Gymru

Rhagfyr 2012



## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Sefydlwyd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 15 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol ac arfer ei bwerau fel y'u nodir yn y Rheolau Sefydlog. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw faterion deddfwriaethol cyffredinol eu natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru, a chyflwyno adroddiadau arnynt.

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**David Melding (Cadeirydd)**

Dirprwy Lywydd  
Ceidwadwyr Cymreig  
Canol De Cymru



**Suzy Davies**

Ceidwadwyr Cymreig  
Gorllewin De Cymru



**Julie James**

Llafur Cymru  
Gorllewin Abertawe



**Eluned Parrott**

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru  
Canol De Cymru



**Simon Thomas**

Plaid Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Fe wnaeth yr Aelodau a ganlyn cymryd rhan yn yr ymchwiliad hwn fel dirprwyon:



**Mick Antoniw**

Llafur Cymru  
Pontypridd



**Jocelyn Davies**

Plaid Cymru  
Dwyrain De Cymru



**Mark Drakeford**

Llafur Cymru  
Gorllewin Caerdydd



**Vaughan Gething**

Llafur Cymru  
De Caerdydd a Phenarth

## Cynnwys

---

<b>Rhagair y Cadeirydd.....</b>	<b>3</b>
<b>Casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor .....</b>	<b>4</b>
<b>1. Rôl y Pwyllgor a chefnidir yr ymchwiliad.....</b>	<b>7</b>
Rôl y Pwyllgor.....	7
Cefndir yr ymchwiliad .....	7
Cylch gorchwyl .....	8
<b>2. Cefndir hanesyddol.....</b>	<b>10</b>
Hunaniaeth gyfreithiol ar wahân Cymru.....	10
Pwerau newydd y Cynulliad a goblygiadau sefydlu awdurdodaeth ar wahân .....	11
<b>3. Beth yw awdurdodaeth? .....</b>	<b>14</b>
Mynediad at gyfiawnder .....	18
Ein barn ni.....	20
<b>4. Ymwahaniad cyfreithiau a goblygiadau hynny .....</b>	<b>23</b>
Ymwahaniad cyfreithiau fel sail ar gyfer sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru .....	23
Rheoli a monitro ymwahanu yn yr awdurdodaeth unedig bresennol.....	27
Corff digonol o gyfreithiau Cymreig sy'n ymwahanu? .....	30
Ein barn ni.....	34
<b>5. Y goblygiadau i'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru .....</b>	<b>37</b>
Ein barn ni.....	38
<b>6. Achosion yn Llysoedd Cymru.....</b>	<b>40</b>
Ein barn ni.....	42
<b>7. Cymariaethau ag awdurdodaethau cyfraith gyffredin bychan eraill.....</b>	<b>44</b>
Ein barn ni.....	44
<b>8. Cynnwys cyfraith trosedd mewn awdurdodaeth i Gymru .....</b>	<b>46</b>
Ystyr cyfraith trosedd .....	46
Gallu'r Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd i greu a diwygio rhai troseddau.....	48

Datganoli cyfiawnder troseddol.....	49
Ein barn ni.....	55
<b>9. Materion eraill.....</b>	<b>57</b>
Addysg a chymwysterau cyfreithiol .....	57
Ein barn ni.....	59
Comisiwn y Gyfraith i Gymru? .....	59
Ein barn ni.....	60
Mae gan gyfreithiau a gaiff eu gwneud yng Nghymru statws cyfartal yn y Saesneg a'r Gymraeg.....	61
Ein barn ni.....	62
Sylwebaeth gyfreithiol.....	62
Ein barn ni.....	62
Penodi Barnwyr Cymru i'r Goruchaf Lys .....	62
Ein barn ni.....	63
Costau .....	63
Ein barn ni.....	64
Ymgysylltu â'r cyhoedd.....	65
Ein barn ni.....	65
<b>Tystion.....</b>	<b>66</b>
<b>Atodiad 1: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig.....</b>	<b>69</b>
<b>Atodiad 2: Ymweliad astudio i Ogledd Iwerddon; 20-21 Mehefin 2012.....</b>	<b>72</b>
<b>Atodiad 3: Materion a grybwyllwyd mewn trafodaethau: Y Sefydliad Astudiaethau Cyfreithiol Proffesiynol (Gogledd Iwerddon) .....</b>	<b>75</b>
<b>Atodiad 4: Gofynion awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân; y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Carswell.....</b>	<b>82</b>
<b>Atodiad 5: Papur briffio y Gwasanaeth Ymchwil: Cyrff cyfreithiol ac adnoddau yn Jersey, Guernsey ac Ynys Manaw.....</b>	<b>85</b>
<b>Atodiad 6: Papur briffio y Gwasanaeth Ymchwil: System Gyfreithiol Canada .....</b>	<b>90</b>
<b>Atodiad 7: Briff y Gwasanaeth Ymchwil: Costau .....</b>	<b>104</b>

## Rhagair y Cadeirydd

---

Mae'n bleser gennyf roi rhagair i'r adroddiad hwn, sy'n dilyn ein hymchwiliad i sefydlu Awdurdodaeth ar Wahân i Gymru.

Nod ein hymchwiliad oedd cael tystiolaeth arbenigol ar y posibilrwydd o sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru gan ymarferwyr blaenllaw yn y proffesiynau cyfreithiol ac academiaidd. Cawsom ein calonogi gan yr ymatebion nodedig a gafwyd, sydd wedi cyfrannu at ddadl addysgiadol, eang ac adeiladol.

Yn sgîl y sylwadau a fynegwyd, mae'n amlwg bod hunaniaeth gyfreithiol Gymreig, gyda'i nodweddion cysylltiedig, yn cryfhau. P'un a oes angen awdurdodaeth ar wahân neu beidio, felly, mae datblygu awdurdodaeth unedig bresennol Cymru a Lloegr i gefnogi'r hunaniaeth hon sy'n dod i'r amlwg yn hollbwysig, a bwriad yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, yn bennaf, yw mynd i'r afael â materion o'r fath yn y tymor byr. Byddai mantais ychwanegol i hyn, sef hwyluso'r broses o symud i gael awdurdodaeth ar wahân yn y dyfodol os bydd penderfyniad o'r fath yn cael ei wneud. Cawsom ein calonogi hefyd gan barodrwydd y proffesiwn cyfreithiol i addasu er mwyn diwallu anghenion cyfreithiol Cymru.

Rydym yn gobeithio y bydd ein casgliadau a'n hargymhellion yn fan cychwyn defnyddiol ac y byddant yn cyfrannu at drafodaethau yn y dyfodol. Yn benodol, rydym yn gobeithio y bydd ein barn yn ategu ac yn llywio gwaith parhaus Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru yn y maes hwn, sy'n gynyddol bwysig.

Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn. Rwy'n gobeithio y bydd ein casgliadau a'n hargymhellion yn arwain at welliannau yn yr awdurdodaeth unedig bresennol drwy ganiatáu iddi ymateb yn llwyddiannus i hunaniaeth gyfreithiol Gymreig sy'n dod i'r amlwg, ac i gydnabod yr hunaniaeth honno. Rwyf hefyd yn gobeithio y bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried yn rhywbeth sy'n cyfrannu at gamau nesaf y broses ddatganoli yng Nghymru.

**David Melding AC, Rhagfyr 2012**

## **Casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor**

---

Ceir rhestr o argymhellion a chasgliadau'r Pwyllgor isod yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad. Ewch i dudalennau perthnasol yr adroddiad i weld y dystiolaeth ategol:

**Casgliad 1:** Credwn y dylai dod â chyfiawnder yn agosach at bobl Cymru er mwyn gwella mynediad at gyfiawnder fod yn egwyddor sylfaenol ac y dylai unrhyw benderfyniad ynghylch y broses o sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru yn y dyfodol gael ei wneud er budd amlwg pobl Cymru. (tudalen 21)

**Casgliad 2:** Cyflwynwyd ystod eang o safbwyntiau am yr hyn y byddai awdurdodaeth ar wahân i Gymru yn ei olygu. Er nad oedd pawb yn cytuno ar un set o feini prawf, rydym yn nodi bod llawer o dystion wedi cytuno y dylid seilio awdurdodaeth yn y dyfodol ar y nodweddion a ganlyn:

- tiriogaeth wedi'i diffinio – yn ein hachos ni, Cymru;
- corff o gyfreithiau, a fyddai'n cynnwys cyfreithiau a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn ogystal â chyfreithiau a etifeddir pan gaiff awdurdodaeth ei chyflwyno; ac
- ystod o sefydliadau cyfreithiol gwahanol a system llysoedd. (tudalen 21)

**Casgliad 3:** O'r dystiolaeth a gafwyd, credwn fod hunaniaeth gyfreithiol Gymreig yn cryfhau, p'un a oes angen awdurdodaeth ar wahân ai peidio. O ganlyniad i hyn, credwn y dylid gwneud newidiadau o fewn model unedig presennol Cymru a Lloegr i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r hunaniaeth gyfreithiol hon sy'n dod i'r amlwg ac yn ei chydabod.

Mae manylion am y newidiadau yr ydym yn eu hawgrymu wedi'u hamlinellu yn argymhellion 1 (hyfforddiant cyfreithiol i ymarferwyr), 2 (newidiadau i'r rheolau trefniadaeth sifil), 3 (comisiwn y gyfraith), 4 (ymdrin â chyfreithiau dwyieithog) a 5 (penodi barnwyr y Goruchaf Lys). (tudalen 22)

**Casgliad 4:** Yn ein barn ni, mae cryfhau'r system gyfredol i gefnogi hunaniaeth gyfreithiol Gymreig sy'n dod i'r amlwg yn ganlyniad



naturiol i'r cam o symud i Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Byddai'r broses hon hefyd yn fanteisiol oherwydd byddai'n gwneud y gwaith o sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru yn haws, os gwneir penderfyniad i sefydlu awdurdodaeth o'r fath yn y dyfodol. (tudalen 24)

**Casgliad 5:** Rydym yn derbyn y bydd y ddadl o blaid sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru yn cael ei chryfhau wrth i gyfreithiau yng Nghymru a Lloegr barhau i ymwahanu. (tudalen 35)

**Casgliad 6:** Fel yng Nghasgliad 3, credwn y dylid gwneud mwy o fewn y strwythurau presennol i ddatblygu sefydliadau cyfreithiol yng Nghymru i wneud y gwaith o weinyddu cyfiawnder yn fwy ymatebol i anghenion Cymru ac i gydnabod a datblygu ei hunaniaeth gyfreithiol sy'n dod i'r amlwg.

Fel yr ydym wedi'i ddatgan eisoes, dylai'r gwaith hwn gynnwys yr addasiadau ymarferol uniongyrchol a amlinellwyd yn argymhellion 1 (hyfforddiant cyfreithiol i ymarferwyr), 2 (newidiadau i'r rheolau trefniadaeth sifil), 3 (comisiwn y gyfraith), 4 (ymdrin â chyfreithiau dwyieithog) a 5 (penodi barnwyr y Goruchaf Lys). (tudalen 35)

**Casgliad 7:** Penderfyniad gwleidyddol yw a ddylid cael awdurdodaeth ar wahân i Gymru ai peidio yn y pen draw, a mater ar gyfer dadleuon a thrafodaethau gwleidyddol y dyfodol fydd penderfynu union fanylion sut y dylid ei sefydlu. (tudalen 36)

**Argymhelliad 1:** Wrth i gorff o gyfreithiau Cymreig esblygu dros amser, rydym yn argymhell y dylai hyfforddiant cyfreithiol ychwanegol gael ei drefnu er mwyn caniatáu i arbenigedd ddatblygu, gan adlewyrchu traddodiadau cyfreithiol Cymru a'i hunaniaeth gyfreithiol newydd. Dylai hyn gynnwys codi ymwybyddiaeth yn Lloegr ynghylch yr ymwahanu cynyddol rhwng cyfreithiau sy'n gymwys yng Nghymru a Lloegr. (tudalen 39)

**Argymhelliad 2:** Rydym yn argymhell bod y Rheolau Trefniadaeth Sifil yn cael eu diwygio i sicrhau bod achosion cyfraith gyhoeddus sy'n ymdrin â materion Cymreig yn bennaf yn cael eu cychwyn yn y llys gweinyddol yng Nghaerdydd yn gyffredinol, neu eu trosglwyddo i'r llys hwn. (tudalen 43)

**Casgliad 8:** Credwn y bydd yn rhaid i unrhyw newidiadau arfaethedig i weinyddu cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr sy'n effeithio ar ddatblygu

hunaniaeth gyfreithiol Gymreig fod yn ddarostyngedig i ymgynghoriad ystyrlon yn y dyfodol. (tudalen 43)

**Casgliad 9:** Rydym yn awgrymu y dylai unrhyw waith paratoadol sy'n cael ei wneud cyn sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru yn y dyfodol edrych ar waith awdurdodaethau cyfraith gyffredin bychan eraill, yn enwedig Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel. (tudalen 45)

**Casgliad 10:** Credwn na fyddai creu awdurdodaeth ar wahân yn cynnig y cyfleoedd gorau posibl pe na bai agweddau ar y system cyfiawnder troseddol yn cael eu datganoli hefyd. (tudalen 56)

**Casgliad 11:** Credwn hefyd ei bod yn debygol y bydd yr achos dros gael awdurdodaeth ar wahân i Gymru yn cael ei gryfhau os caiff agweddau ar y system cyfiawnder troseddol eu datganoli i Gymru yn y dyfodol. (tudalen 56)

**Casgliad 12:** Hyd yn oed os na chaiff agweddau ar y system cyfiawnder troseddol eu datganoli ymhellach, credwn y dylid gwneud gwaith i addasu'r trefniadau presennol o fewn awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr i roi ystyriaeth i ddatblygiad cynyddol cyfraith trosedd o fewn meysydd datganoledig. (tudalen 56)

**Argymhelliad 3:** Rydym yn argymhell y dylid sefydlu corff i adolygu'r broses o gydgrynhoi cyfraith Cymru ac i gynorthwyo â'r broses honno. Gallai corff o'r fath naill ai fod yn rhan o Gomisiwn y Gyfraith presennol ar gyfer Cymru a Lloegr neu'n gorff gwbl newydd. (tudalen 61)

**Argymhelliad 4:** Rydym yn argymhell y dylid sefydlu rhagdybiaeth o blaid cychwyn a chynnal gwrandawiadau pob achos, mewn llysoedd yng Nghymru, sy'n ymwneud â chyfreithiau a wnaed yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. (tudalen 62)

**Argymhelliad 5:** Rydym yn argymhell y dylid penodi uwch farnwr sydd â phrofiad o ddatganoli yng Nghymru a chyfraith Cymru i'r Goruchaf Lys. (tudalen 63)

**Casgliad 13:** Credwn y dylid darganfod beth fyddai costau manwl unrhyw gynigion yn y dyfodol i sefydlu awdurdodaeth ar wahân. (tudalen 64)

# 1. Rôl y Pwyllgor a chefnidir yr ymchwiliad

---

## Rôl y Pwyllgor

1. Cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (“y Pwyllgor”) yw cyflawni swyddogaethau’r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheol Sefydlog 21, ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy’n gysylltiedig â hwy.
2. O fewn y cylch gwaith hwn, bydd y Pwyllgor yn ystyried pwysigrwydd gwleidyddol a chyfreithiol yr holl offerynnau statudol neu offerynnau statudol drafft a wneir gan Weinidogion Cymru, yn ogystal ag agweddau technegol ar yr offerynnau hynny. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ar a ddylai’r Cynulliad roi sylw arbennig i’r offerynnau yn unol ag ystod o seiliau a restrir yn Rheol Sefydlog 21.
3. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried pa mor briodol yw darpariaethau ym Miliâu’r Cynulliad ac ym Miliâu Senedd y Deyrnas Unedig sy’n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu’r Cwnsler Cyffredinol, ac yn cyflwyno adroddiadau ar hynny.

## Cefndir yr ymchwiliad

4. Fel rhan o’i flaenraglen waith cychwynnol yn dilyn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yn 2011, cytunodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 14 Gorffennaf 2011 i gynnal ymchwiliad i awdurdodaeth ar wahân i Gymru.<sup>1</sup> Yna, ym mis Hydref 2011, cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn dechrau “trafodaeth gyhoeddus” ar y mater hwn. Dywedodd:

“Mae’r Cwnsler Cyffredinol a minnau yn gytûn nad mater i wleidyddion a gweision sifil ei drafod yn unig yw hwn. Rhaid i’r drafodaeth fod yn llawer ehangach na hynny, ac mae angen i ni gasglu’r amrywiaeth ehangaf posibl o safbwyntiau, ac nid o du’r gymuned gyfreithiol yn unig.

---

<sup>1</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 14 Gorffennaf 2012, paragraffau 55 i 56 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

Mae angen i ni fod yn glir ynghylch yr hyn yr ydym ni'n ei olygu wrth sôn am awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân. Beth sy'n ofynnol er mwyn i hynny ddigwydd? Beth fydd y goblygiadau? Pa fanteision allai hyn eu cynnig i bobl Cymru?

Yn gynnar y flwyddyn nesaf bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaeth gyhoeddus ar y mater hwn. Byddwn yn dechrau drwy wahodd y safbwyntiau ehangaf posibl o fewn Cymru a'r tu allan iddi. Bydd yr ymatebion a dderbyniwn yn helpu i lywio barn Llywodraeth Cymru wrth baratoi ar gyfer gwaith y Comisiwn ar setliad datganoli Cymru, y mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn ei benodi'n fuan. Rhoddir croeso arbennig i sylwadau Aelodau'r Cynulliad ar y materion hyn, wrth i'r drafodaeth fynd yn ei blaen.”<sup>2</sup>

5. Ar ôl hynny, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen ymgynghori ynghylch “Awdurdodaeth Gyfreithiol ar Wahân ar gyfer Cymru”<sup>3</sup> ar 27 Mawrth 2012. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau oedd 19 Mehefin 2012.

### **Cylch gorchwyl**

6. Dyma gylch gorchwyl yr Ymchwiliad, y cytunodd y Pwyllgor arnynt ar 28 Tachwedd 2012<sup>4</sup>:

Cyfrannu at y ddadl gyhoeddus ar yr angen am awdurdodaeth ar wahân i Gymru drwy gymryd tystiolaeth arbenigol ar:

- ystyr y term “awdurdodaeth ar wahân i Gymru”;
- manteision, rhwystrau a chostau posibl cyflwyno awdurdodaeth ar wahân i Gymru;
- goblygiadau ymarferol sefydlu awdurdodaeth ar wahân i'r proffesiwn cyfreithiol a'r cyhoedd;

---

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, Carwyn Jones AC (Prif Weinidog Cymru), [Public Debate: Separate Legal Jurisdiction](#) Datganiad Cabinet Ysgrifenedig, 7 Hydref 2011 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru [Ymgynghoriad ar Awdurdodaeth Gyfreithiol Ar Wahân ar gyfer Cymru](#), 27 Mawrth 2012 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>4</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y trafodion: Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 28 Tachwedd 2011, paragraffau 46 i 81 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

- sut y mae awdurdodaethau bach eraill yn y Deyrnas Unedig yn gweithio, yn enwedig y rhai, megis Gogledd Iwerddon, sy'n defnyddio system y gyfraith gyffredin; a
- chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad.

7. Yn ei gyfarfod ar 28 Tachwedd 2011, roedd y Pwyllgor hefyd yn glir nad diben yr Ymchwiliad oedd cyflwyno argymhellion penodol o blaid ac yn erbyn sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru. Yn hytrach, nod yr Ymchwiliad fyddai crynhoi barn yr ymatebwyr a nodi materion mewn perthynas â dichonolrwydd awdurdodaeth ar wahân er mwyn hyrwyddo'r drafodaeth barhaus.<sup>5</sup> Cytunodd y Pwyllgor hefyd nad oedd yn dymuno achub y blaen ar waith gan Lywodraeth Cymru ar awdurdodaeth ar wahân.<sup>6</sup>

8. Cyhoeddodd y Pwyllgor gais am dystiolaeth ysgrifenedig ym mis Ionawr 2012. Daeth tystiolaeth i law gan amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion ac fe'i cyhoeddwyd ar ein tudalennau ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol. Ceir rhestr o'r rhai a ddarparodd dystiolaeth ysgrifenedig yn Atodiad 1 ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

9. Cawsom dystiolaeth lafar gan amrywiaeth o arbenigwyr cyfreithiol a chyfansoddiadol, yn ogystal â seneddwyr nodedig gydag arbenigedd cyfreithiol. Mae rhestr lawn o'r rhai a roddodd dystiolaeth ar ddiwedd yr adroddiad hwn ac mae trawsgrifiadau o'u tystiolaeth ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

---

<sup>5</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 28 Tachwedd 2011, paragraffau 46 i 81 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>6</sup> Ibid, paraagraff 46 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

## 2. Cefndir hanesyddol<sup>7</sup>

---

10. Er bod Deddfau Uno 1536 a 1543 wedi dod â Chymru o dan gyfreithiau Lloegr, dim ond ers 1831 y mae gweinyddiaeth cyfiawnder yng Nghymru wedi'i huno'n llawn. Creodd Deddf 1543 gyfundrefn llysoedd ar wahân ar gyfer y rhan fwyaf o Gymru. Safai system newydd llysoedd Cymru, sef Llys y Sesiwn Fawr yng Nghymru, ar wahân yn llwyr i lysoedd Lloegr ac er eu bod yn defnyddio'r un cyfreithiau â'r rhai a oedd yn gymwys yn Lloegr, roedd gwahaniaethau sylweddol o ran sut roeddent yn gwneud hynny.

11. Cafodd Llys y Sesiwn Fawr ei ddiddymu gan *Ddeddf Gweinyddu Cyfiawnder 1830* a dim ond bryd hynny y crëwyd un awdurdodaeth i Gymru a Lloegr, ac iddi un system o lysoedd, o'r diwedd. Felly, roedd y syniad o gael system ar wahân o lysoedd yng Nghymru, a oedd yn ystyried amgylchiadau Cymru, wedi'i gydnabod gan setliad cyfansoddiadol y Tuduriaid a datblygiad cymharol fodern yw uno llysoedd y ddwy wlad yn un system.

### Hunaniaeth gyfreithiol ar wahân Cymru

12. Er nad yw gweinyddu cyfiawnder yn gyfrifoldeb datganoledig ar hyn o bryd, bu'n destun datblygiadau pwysig yng Nghymru ers 1999. Maent yn cynnwys:

- yn 2007, daeth cysylltiad y Gogledd a Chaer at ddibenion gweinyddu cyfiawnder i ben pan sefydlwyd Gwasanaethau Llysoedd Ei Mawrhydi Cymru (GLIEM Cymru). Erbyn hyn, mae cyfiawnder yng Nghymru yn cael ei weinyddu ar sail Cymru gyfan;
- creu Llys Mercantilaidd i Gymru;
- mae'r mwyafrif o achosion adolygiad barnwrol sy'n ymwneud â phenderfyniadau gan awdurdodau cyhoeddus Cymru, gan gynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn cael eu clywed yng Nghymru;
- mae Adran Sifil y Llys Apêl yn eistedd yng Nghaerdydd yn rheolaidd;

---

<sup>7</sup> Thomas Glyn Watkin, *The Legal History of Wales*, Gwasg Prifysgol Cymru, 2007. P.145

- mae Adran Droseddol y Llys Apêl yn eistedd yng Nghaerdydd yn rheolaidd;
- sefydlu Llys Gweinyddol Cymru;
- sefydlu Llys Siawnsri yng Nghymru;
- penodi Barnwr Uchel Lys y mae ei ruglder yn y Gymraeg yn ei alluogi i gynnal treialon yn ddwyieithog neu'n uniaith Gymraeg, yn ôl dymuniadau'r partïon, heb gyfieithiad;
- penderfynodd y Tribiwnlys Apelau Cyflogaeth y byddai'n eistedd yn rheolaidd yng Nghymru.

### **Pwerau newydd y Cynulliad a goblygiadau sefydlu awdurdodaeth ar wahân**

13. Yn dilyn y refferendwm ym mis Mawrth 2011, cafwyd setliad datganoli newydd i Gymru a roddodd bwerau uniongyrchol i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud cyfreithiau a all effeithio ar fywydau pobl Cymru mewn ffyrdd pellgyrhaeddol a phwysig.

14. Er bod y pwerau hyn yn rhai eang, nid yw'r setliad newydd yn ateb pob cwestiwn cyfansoddiadol, a fydd yn parhau i fod yn destun trafodaeth. Un o oblygiadau'r setliad newydd yw bod gan Gymru a Lloegr bellach ddwy ddeddfwrfa, gydag un llyfr statud, sy'n gwneud cyfreithiau ar gyfer un awdurdodaeth gydag un system llysoedd a phroffesiwn cyfreithiol. Nododd y Prif Weinidog, yn fuan ar ôl y refferendwm yn 2011, fod hyn braidd yn anghyson:

“I am not aware of any other part of the world where two primary-law-making institutions exist within the same jurisdiction, passing laws in the same areas of responsibility.”<sup>8</sup>

15. Ategwyd hyn gan Alan Trench, yr academydd cyfansoddiadol, a ddywedodd wrth y Pwyllgor:

“As far as I know, Wales’s position is unique in the common law world. In the civil law world, it would be quite usual, and the issues that we are discussing would probably puzzle many lawyers from a civilian tradition. In the common law world, I cannot think of anywhere that has a legislature with clear and extensive law-making powers such as the National Assembly

---

<sup>8</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog](#)

now has but does not have a clear jurisdiction within which it operates.”<sup>9</sup>

16. Fodd bynnag, dywedodd yr Athro John Williams o Brifysgol Aberystwyth wrth y Pwyllgor:

“With regard to ... whether it is possible to have a legislature without a jurisdiction, under the great unwritten British constitution, it is probably possible to have whatever we want. That is certainly one of the problems. In the short term, there is scope for saying—and, indeed, this is very much the system that we have now—that we have the political devolution and the law-making devolution in place, but, for the moment, the question of jurisdiction drags behind a little. What we need in order to be able to establish a jurisdiction is for all, or most, of the building blocks to be in place. So, it is possible, but it is far from ideal, because we will, essentially, have judges from the England-and-Wales jurisdiction deciding on matters that are purely Welsh. If you look at some aspects of social care law and education law, you have to ask whether that feels right, and I do not think that it does, certainly not in the longer term.”<sup>10</sup>

17. Mae cytundeb cyffredinol y bu tuedd amlwg i sefydlu “hunaniaeth gyfreithiol” i Gymru ers datganoli. Un o’r cwestiynau y bydd angen ei ystyried wrth benderfynu a oes angen awdurdodaeth i Gymru yw a all yr hunaniaeth hon ddatblygu ymhellach heb awdurdodaeth o’r fath.

18. Trafodir y materion a ganlyn yn yr adroddiad hwn:

- beth yw ‘awdurdodaeth’ (Pennod 3);
- pa mor ymarferol fyddai awdurdodaeth i Gymru, ac yn benodol:
  - o ymwahanu cyfreithiau a goblygiadau hyn, gan gynnwys a oes corff digonol o gyfreithiau Cymreig i gynnal awdurdodaeth ar wahân (Pennod 4);

---

<sup>9</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 9 Gorffennaf 2012, paragraff 15 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>10</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru [Cofnod y trafodion: y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 5 Mawrth 2012, paragraff 15 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]



- y goblygiadau ar gyfer y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru (Pennod 5);
- y goblygiadau ar gyfer achosion a gychwynnir yn llysoedd Cymru (Pennod 6);
- cymariaethau ag awdurdodaethau cyfraith gyffredin bach eraill (Pennod 7);
- cynnwys cyfraith droseddol mewn awdurdodaeth i Gymru (Pennod 8); a
- materion eraill, fel addysg a chymwysterau cyfreithiol; Comisiwn y Gyfraith i Gymru; cyfreithiau a wneir yng Nghymru yn cael statws cyfartal yn Gymraeg ac yn Saesneg; strwythur Llywodraeth Cymru; a phenodi Barnwyr o Gymru i'r Goruchaf Lys (Pennod 9)

### 3. Beth yw awdurdodaeth?

---

19. Y cwestiwn cyntaf y ceisiodd y Pwyllgor ei ateb oedd beth yw awdurdodaeth, a oes ganddi unrhyw nodweddion hanfodol a beth yw'r nodweddion hynny. Cafodd y Pwyllgor amrywiaeth o dystiolaeth a oedd yn dangos bod gwahaniaeth barn ar y mater hwn. Roedd hyn yn cynnwys y farn a fynegwyd gan Gymdeithas y Gyfraith<sup>11</sup> ac eraill ei bod eisoes yn bosibl ystyried Cymru fel awdurdodaeth ar wahân.

20. Dywedodd Pwyllgor Cymreig Cyngor y Barnwyr wrth y Pwyllgor nad oes gan 'awdurdodaeth' ddiffiniad pendant.<sup>12</sup> Roedd yn credu bod y datganiad yn Adroddiad Confensiwn Cymru Gyfan, sef y "gellir pennu awdurdodaeth drwy diriogaeth benodedig, corff penodol o gyfreithiau neu strwythur llysoedd a sefydliadau cyfreithiol gwahanol"<sup>13</sup> yn ddiffiniad digonol i fod yn sail i'w ymateb.

21. Mynegodd yr Athro Gwynedd Parry o Sefydliad Hywel Dda ym Mhrifysgol Abertawe farn debyg iawn, gan gynnig y diffiniad a ganlyn:

"Gellir dweud nad yw'r syniad o 'awdurdodaeth' yn rhywbeth pendant, unffurf, a gall awdurdodaethau wahaniaethu gan ddibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Ond ymysg y nodweddion y dylid eu disgwyl, dywedir mai'r rhai amlycaf yw: tiriogaeth ddiffiniedig; corff o gyfreithiau cynhenid; sefydliadau cyfreithiol a chyfundrefn llysoedd."<sup>14</sup>

22. Roedd Christopher Morton, Barnwr Cylchdaith sydd wedi ymddeol, yn meddwl y byddai gan awdurdodaeth ar wahân y nodweddion a ganlyn:

"a body of criminal and civil courts of first instance and an Appeal Court (Criminal and Civil) with exclusive jurisdiction in Wales and which mirrors those that now exist for England and

---

<sup>11</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 12 Mawrth 2012, paragraff 23 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>12</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i'r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ15 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>13</sup> Confensiwn Cymru Gyfan, [Adroddiad Confensiwn Cymru Gyfan](#), Tachwedd 2009, paragraff 3.9.16 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>14</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i'r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ14 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

Wales, subject to the Supreme Court which will (ignoring any Appeals to the European Court of Human Rights) remain the final domestic appeal court for each part of the UK, apart from appeals on Scottish criminal matters.”<sup>15</sup>

23. Fodd bynnag, nododd Gymdeithas y Barnwyr yng Nghymru nad oedd diffinio awdurdodaeth yn beth syml i’w wneud:

“It is, however, important to note that there is no rigid template for a jurisdiction: jurisdictions differ in nature, one from the other and that is so even in the case of the main jurisdictions in the United Kingdom – England and Wales, Northern Ireland and Scotland. If a separate jurisdiction were to be created for Wales it would not have to replicate any other jurisdiction; it could be tailor made to meet the needs of Wales and develop further if those needs change.”<sup>16</sup>

24. Roedd Winston Roddick CB QC, Cwnsler Cyffredinol cyntaf y Cynulliad fel yr oedd wedi’i gyfansoddi bryd hynny, o’r farn mai prif gwestiwn yr ymchwiliad hwn oedd:

“...whether the Assembly should have authority or, more simply, responsibility over the administration of justice in Wales. In other words, should the administration of justice in Wales become a devolved function.”<sup>17</sup>

25. Ar y sail honno, roedd yn ystyried mai ystyr ‘awdurdodaeth’ yn syml yw cyfrifoldeb dros weinyddu cyfiawnder yng Nghymru.<sup>18</sup>

26. Ychwanegodd hefyd:

“I include in the expression “administration of justice” the Crown Court, the High Court, the criminal and civil divisions of the Court of Appeal, the Prosecution Service, all Tribunals, the Magistrates Courts Service, the prison service, the Civil Service responsible for the administration of justice in Wales, and the

---

<sup>15</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i’r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ13 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>16</sup> Ibid, WJ20

<sup>17</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: ymateb ychwanegol WJ - Winston Roddick CB QC](#), 11 Mehefin 2012 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>18</sup> Ibid

police service. I also include the authority to appoint judges subject, however, to the supervision of an independent judicial appointments commission.”<sup>19</sup>

27. Nododd yr Athro Thomas Glyn Watkin fod dryswch o ran y termau ‘cymhwysedd’ ac ‘awdurdodaeth’:

“By ‘jurisdiction’, what is meant in civil law countries is ... the function of a court in administering a particular body of law. ‘Competence’, on the other hand, addresses the question of how you share out, within a judicial system, particular roles. For instance, if you were to say that you have a body of criminal law and you must therefore have some mechanism for applying it, you could, theoretically—madly—have just one court dealing with all cases in one place. However, that would clearly be inefficient and would cause delays and so on, so you begin to make distinctions and say that the courts will be in several places and you give each territorial competence. You say that some will deal with minor offences and some with more serious crimes, so you have subject-matter competence. Some will deal with cases at first instance and some on appeal, so you have functional competence.”<sup>20</sup>

28. Ym marn yr Athro Thomas Glyn Watkin, roedd y cwestiwn ynghylch cymhwysedd yn un ymarferol, tra bod y cwestiwn ynghylch awdurdodaeth yn ymwneud ag egwyddor gyfansoddiadol:

“The question of how you share the competence will largely be determined—not entirely, but predominantly—by practical issues: questions of convenience and of efficiency. The question about whether you should have jurisdiction is one of constitutional principle. If you do not distinguish between the two concepts, there is a danger—and this shows itself in current debates in Wales—of bringing to bear on the larger question issues of practical convenience, delay and efficiency as though those were the only matters to be addressed, and of losing sight of the fact that the larger question of whether one

---

<sup>19</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymateb ychwanegol WJ - Winston Roddick CB QC](#), 11 Mehefin 2012 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>20</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 18 Mehefin, paragraff 19 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

should have a jurisdiction at all is different. It is a question of constitutional and legal principle, and that is what should predominate in answering it.”<sup>21</sup>

29. Wrth baratoi ei gyflwyniad, ymgynghorodd yr Arglwydd Morris o Aberafan â'r Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Carswell, cyn Arglwydd Apêl ac Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon, a roddodd nodyn ar ei farn ynghylch gofynion awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân. Mae nodyn yr Arglwydd Carswell wedi'i gynnwys yn llawn yn Atodiad 4 i'r adroddiad hwn. Mae'n nodi y byddai angen proses i drafod y trefniadau manwl ar gyfer unrhyw awdurdodaeth i Gymru. Fodd bynnag, ystyrir mai'r prif faterion yw:

- barnwriaeth ar wahân; gwrandawriad cyntaf ac apeliadol
- bargyfreithwyr, gan gynnwys trefniadau cymhwyso a phenodi, hawl i ymddangos, materion hyfforddi, strwythurau cwyno a disgyblu a threfniadau rheoli;
- cyfreithwyr, gyda materion tebyg i'r rhai a nodwyd ar gyfer bargyfreithwyr;
- ei reolau llys ei hun, gyda chorff i wneud rheolau;
- sefydliad i redeg y llysoedd ac i weinyddu'r farnwriaeth;
- deunyddiau cyfreithiol yn ymwneud â chorff lleol y gyfraith;
- gwasanaeth cyfreithiol o dan arweiniad twrnai cyffredinol, gyda chyfarwyddwr erlyniadau cyhoeddus, gwasanaethau cysylltiedig a swyddogaethau rheoleiddio;
- Comisiwn y Gyfraith i wneud argymhellion i'r Cynulliad am ddatblygiad y gyfraith.

30. Pan ofynnwyd iddo a oedd wedi dod i gasgliad ynghylch beth yw awdurdodaeth, dywedodd Theodore Huckle QC, y Cwnsler Cyffredinol, wrthym:

“The short answer is ‘no’. I think that there is a necessary reference to a defined territory, and I do not think, for my part, that there is a particular difficulty with that in relation to Wales. ... That is one aspect. My view is that, in context, it is sensible to look at whether there is a body of law specifically applicable

---

<sup>21</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 18 Mehefin, paragraff 22 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

to the territory in question. I say ‘in context’ because, for example, when the Northern Ireland jurisdiction was established there was no body of law specifically applicable to Northern Ireland, as compared with England and Wales, in particular. Therefore, it seems to me that it is not necessarily a requirement that, to create a jurisdiction, one already has a body of law. As it happens, it seems to me that we do already have a body of law that is applicable in Wales.”<sup>22</sup>

### **Mynediad at gyfiawnder**

31. Yn ogystal â’r dystiolaeth a gafwyd am ddiffiniad awdurdodaeth, mynegodd nifer o dystion bryderon mewn perthynas â materion ynghylch cael mynediad at gyfiawnder.

32. Mae sawl elfen i’r materion ynghylch cael mynediad at gyfiawnder. Gall y materion hyn gynnwys mynediad corfforol at gyfiawnder neu fynediad at gyfiawnder mewn modd mwy haniaethol yng nghyd-destun eglurder y system gyfreithiol a pha mor dda y mae’r cyhoedd yn deall y system hon.

33. Er enghraifft, roedd Ysgol y Gyfraith Prifysgol Bangor o’r farn a ganlyn:

“At present there is a separate Welsh jurisdiction, however there are no courts or other legal institutions with exclusive competence over laws that apply only to Wales and over laws that apply both to England and Wales in respect of cases that relate predominantly to Wales. The lack of such competency does not deny the existence of a Welsh jurisdiction. However, its absence will increasingly hinder the efficient, effective and fair administration of justice in Wales.”<sup>23</sup>

34. Fodd bynnag, roedd Michael Imperato o Gymdeithas y Cyfreithwyr yn teimlo bod yr awdurdodaeth unedig bresennol yn codi materion ymarferol ynghylch mynediad at gyfiawnder o safbwynt Cymreig, yn benodol a ddylai achosion Cymreig gael eu clywed mewn llysoedd yng Nghymru ai peidio:

---

<sup>22</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 16 Gorffennaf, paragraff 17 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>23</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i’r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ24 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

“in theory, a civil case can be commenced anywhere in England and Wales, but the courts should consider which is the correct court to hear the case at the end of the day. You could have a case starting off in Birmingham but being transferred to south Wales if it was felt that that was best because of the parties or witnesses. That is a process within the court system at the moment. I have had experience recently of a judicial review case with regard to a Welsh school closure. We were dealing with the interpretation of Welsh guidance, and the final part of that hearing was heard in the Royal Courts of Justice in London, but the majority of the case had been heard in Cardiff, and I think that that was right. We had QCs with a Welsh background. However, that was almost by way of coincidence—you could certainly have had London-based QCs and London-based lawyers involved in hearing that case. So, there is an issue with regard to how we deal with access to justice.”<sup>24</sup>

35. Dywedodd yr Arglwydd Carlile o Aberriw wrthym fod lle i wella'r trefniadau presennol er mwyn datblygu trefniadau lleol i ganiatáu mynediad gwell at gyfiawnder:

“I think that in a smaller jurisdiction it might be possible to provide different forms of access to justice, particularly in the civil process. I have not been an MP since 1997, so it is a long time ago now, but even before 1997 the performance of small claims courts in mid Wales was generally excellent. Provided that people were able to obtain advice from somebody who could tell them to put the word “contract” into their claim, and “damages” and such words that some of us around this table are familiar with, then, generally speaking, the small claims courts provided high-quality access to justice at very low cost.

I think, too, that, in the criminal setting, we could probably develop a much more flexible duty solicitor scheme, which would cover the rural courts. Its smallness of scale would enable one to be much more conceptual about how it was created. You could start with a clean sheet of paper, a sensible use of the internet, including Skype and such things, so that

---

<sup>24</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 12 Mawrth 2012, paragraff 64 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

first advice could be given, by, say, a solicitor in his or her home. I have been in Newtown police station at 3 a.m. on a Saturday with an acquaintance of mine who is the duty solicitor arriving in his pyjama top and a pair of trousers. I think that there is a better way of dealing with cases such as that than the traditional way, although he handled the case extremely well. It would give scope for a much more imaginative approach and maybe enhance access to justice.”<sup>25</sup>

36. Cafodd materion mewn perthynas â chyfiawnder eu hystyried yn ystod ymweliad y Pwyllgor â Gogledd Iwerddon hefyd. Clywsom yn benodol am gynlluniau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Gogledd Iwerddon i newid cyfundrefn y llysoedd a’u lleoliad, gan roi’r pwyslais ar swyddfeydd cyfun, a fyddai’n rhoi’r gefnogaeth weinyddol ac yn golygu bod modd cynnal gwrandawiadau yn yr un lleoliad. Byddai hyn yn gwella mynediad at gyfiawnder mewn cymunedau (yn enwedig rhai gwledig) a byddai’n golygu tua hanner awr o amser teithio i’r swyddfeydd ar gyfartaledd.

37. Clywsom hefyd fod y gwahaniaeth rhwng y llefydd y mae achosion sifil ac achosion troseddol yn cael eu cynnal yn cael ei ddileu, a fydd yn caniatáu ar gyfer gwneud arbedion sylweddol (bydd clercod y llysoedd yn clerccio’r ddau fath o achosion). Bydd yr holl wrandawiadau lleol yn cael eu cynnal yn y Canolfannau Cyfiawnder ar y cyd newydd, fel y’u gelwir.

### ***Ein barn ni***

38. Clywsom ystod eang o safbwyntiau am yr hyn y byddai awdurdodaeth ar wahân i Gymru yn ei olygu. Er nad oedd pawb yn cytuno ar un set o feini prawf, rydym yn nodi bod llawer o dystion wedi cytuno y dylid seilio awdurdodaeth ar y nodweddion a ganlyn:

- tiriogaeth wedi’i diffinio – yn ein hachos ni, Cymru;
- corff o gyfreithiau, a fyddai’n cynnwys cyfreithiau a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn ogystal â chyfreithiau a etifeddir pan gaiff awdurdodaeth ei chyflwyno;
- ystod o sefydliadau cyfreithiol gwahanol a system llysoedd.

---

<sup>25</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 24 Medi 2012, paragraff 81 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]



39. Mae nodyn yr Arglwydd Carswell yn Atodiad 4 yn darparu dadansoddiad tipyn mwy manwl o'r materion y byddai angen eu trafod wrth ystyried yr hyn y byddai awdurdodaeth ar wahân yn ei olygu pe byddai un yn cael ei sefydlu yn y dyfodol.

40. O'r dystiolaeth a gawsom, credwn fod hunaniaeth gyfreithiol Gymreig yn cryfhau. Hyd yn oed pe na bai awdurdodaeth ar wahân yn cael ei sefydlu, credwn fod angen newidiadau i'r model presennol yng Nghymru a Lloegr i sicrhau ei fod yn adlewyrchu realiti cyfansoddiadol ac yn cydnabod datblygiadau cyfreithiol yng Nghymru.

41. Yn ogystal, credwn mai'r egwyddor sylfaenol o ran sefydlu awdurdodaeth ar wahân ddylai fod dod â chyfiawnder yn agosach at bobl Cymru er mwyn eu galluogi i gael mynediad gwell at gyfiawnder. Mae'n hanfodol nad yw newidiadau yn y dyfodol yn cael eu gweld yn fater o gyfleustra i'r proffesiwn cyfreithiol yn unig ac y dylai awdurdodaeth ar wahân i Gymru gael ei sefydlu er budd amlwg y cyhoedd yng Nghymru.

42. Fodd bynnag, y tu hwnt i'r materion a nodwyd uchod, nid ydym yn credu ei bod yn ddefnyddiol ar hyn o bryd i nodi rhestr wirio ragnodol ac anhyblyg o faterion a ddylai ffurfio awdurdodaeth i Gymru.

**Casgliad 1: Credwn y dylai dod â chyfiawnder yn agosach at bobl Cymru er mwyn gwella mynediad at gyfiawnder fod yn egwyddor sylfaenol ac y dylai unrhyw benderfyniad ynghylch y broses o sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru yn y dyfodol gael ei wneud er budd amlwg pobl Cymru.**

**Casgliad 2: Cyflwynwyd ystod eang o safbwyntiau am yr hyn y byddai awdurdodaeth ar wahân i Gymru yn ei olygu. Er nad oedd pawb yn cytuno ar un set o feini prawf, rydym yn nodi bod llawer o dystion wedi cytuno y dylid seilio awdurdodaeth yn y dyfodol ar y nodweddion a ganlyn:**

- tiriogaeth wedi'i diffinio – yn ein hachos ni, Cymru;
- corff o gyfreithiau, a fyddai'n cynnwys cyfreithiau a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn ogystal â chyfreithiau a etifeddir pan gaiff awdurdodaeth ei chyflwyno; ac
- ystod o sefydliadau cyfreithiol gwahanol a system llysoedd.

**Casgliad 3: O'r dystiolaeth a gafwyd, credwn fod hunaniaeth gyfreithiol Gymreig yn cryfhau, p'un a oes angen awdurdodaeth ar wahân ai peidio. O ganlyniad i hyn, credwn y dylid gwneud newidiadau o fewn model unedig presennol Cymru a Lloegr i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r hunaniaeth gyfreithiol hon sy'n dod i'r amlwg ac yn ei chydabod.**

**Mae manylion am y newidiadau yr ydym yn eu hawgrymu wedi'u hamlinellu yn argymhellion 1 (hyfforddiant cyfreithiol i ymarferwyr), 2 (newidiadau i'r rheolau trefniadaeth sifil), 3 (comisiwn y gyfraith), 4 (ymdrin â chyfreithiau dwyieithog) a 5 (penodi barnwyr y Goruchaf Lys).**

**Casgliad 4: Yn ein barn ni, mae cryfhau'r system gyfredol i gefnogi hunaniaeth gyfreithiol Gymreig sy'n dod i'r amlwg yn ganlyniad naturiol i'r cam o symud i Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Byddai'r broses hon hefyd yn fanteisiol oherwydd byddai'n gwneud y gwaith o sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru yn haws, os gwneir penderfyniad i sefydlu awdurdodaeth o'r fath yn y dyfodol.**

## **4. Ymwahaniad cyfreithiau a goblygiadau hynny**

---

43. Cafodd y Pwyllgor safbwyntiau cyferbyniol ynghylch a yw awdurdodaeth i Gymru yn ymarferol neu'n ddymunol ar hyn o bryd. Roedd llawer o'r dystiolaeth a gafwyd gan y Pwyllgor wedi tynnu sylw at yr ymwahanu anochel rhwng cyfraith Cymru a Lloegr, nid yn unig oherwydd bod corff cynyddol o gyfreithiau Cymreig, ond oherwydd bod Senedd y DU yn parhau i ddeddfu ar gyfer Lloegr yn unig yn awr ac yn y dyfodol.

44. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth rhwng y rhai a oedd yn teimlo bod y newid tuag at sefydlu awdurdodaeth newydd yn anochel a'r rhai a oedd yn ystyried bod y drefn bresennol yn gallu ymdrin â'r ymwahanu'n dda.

### **Ymwahaniad cyfreithiau fel sail ar gyfer sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru**

45. Roedd nifer o dystion o'r farn nad yw'r sefyllfa bresennol, lle mae dwy ddeddfwrfa yn gwneud cyfreithiau sy'n ymwahanu o fewn yr un awdurdodaeth unedig, yn gynaliadwy.

46. Soniodd David Hughes, bargyfreithiwr, am ei brofiad yn Gibraltar:

"The most obvious benefit to my mind is that it [a separate jurisdiction] avoids the risks inherent in having the same courts applying distinct primary legislation from two different sources within the same jurisdiction. ....

.... My experience in Gibraltar was that it was sometimes difficult for retired Anglo-Welsh judges sitting in the Court of Appeal to adjust their thinking from one appropriate to applying Anglo-Welsh law to one appropriate to applying the Law of Gibraltar. Although this most often manifested itself in the course of argument before the court, an example can be seen in the case of Rojas -v- Berllaque [2001-02] Gib LR 252, when the majority of the court struggled with provisions of the Gibraltar Constitution that provided for remedies in the event of violations of constitutional rights, preferring instead an Anglo-Welsh approach. That this happened in a jurisdiction physically separate from England & Wales leads me to believe that, if a separate Welsh jurisdiction is not established, at some point in the future Welsh legislation drafted to be different

from that applying in England will be interpreted to mean the same as that applying in England.”<sup>26</sup>

47. Yn eu tystiolaeth ar y cyd, dywedodd Emyr Lewis a'r Athro Dan Wincott o Ganolfan Llywodraethiant Cymru:

“It is generally accepted that the law which applies in Wales is already different from that which applies in England, and all the signs are that the differences will increase. If our analysis above is correct, the scope for divergence is perhaps greater than the architects of the 2006 Act envisaged. The adoption of a conferred powers model, as opposed to a reserved powers model, does not decrease the likelihood of a body of law emerging in Wales which is significantly different from the law which applies in England.”<sup>27</sup>

48. Pan gafodd ei holi, gwnaeth yr Athro Wincott y pwynt nad yw datblygiad cyfreithiau sy'n ymwahanu yng Nghymru a Lloegr yn dibynnu ar ddeddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unig, oherwydd y bydd Senedd y DU, yn gynyddol, yn gwneud cyfreithiau sy'n gymwys i Loegr yn unig:

“...the law of England and the law of Wales will diverge, even if nothing very much happens in Wales ... So, my sense is that there will be significant divergence and that it will probably happen sooner than we think, not least because the current Government in Westminster seems quite active and is moving in a direction that I think, in general, people do not expect the Government here would follow.”<sup>28</sup>

49. O ran y goblygiadau hyn, dywedodd:

“We are fairly relaxed about gradualism, but we are very concerned about ad-hocery, so we would like to see gradualism taking place within a framework, not just in the medium term, but in the long term, so that we think through, and rethink as developments unfold, where it is we think we might be going. It

---

<sup>26</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i'r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ7 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>27</sup> Ibid, WJ28

<sup>28</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 21 Mai 2012, paragraff 57 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

is about making a distinction between just letting things happen and trying to think systematically about an approach that may well be gradual. I have some conceptual problems with imagining what it would mean to say ‘Today we have a separate jurisdiction; it is all bright and shiny and new and everything changes in a single moment’. We were trying to think through the implications of that divergence.”<sup>29</sup>

50. Dywedodd hefyd:

“For me, the question is ... really about whether the distinctive law of Wales is interpreted judicially, primarily through a framework that will become increasingly English—which I think is more or less the likely consequence of not grasping this nettle—or whether that body of law and policy will be interpreted in a way that treats its origins in and for Wales as primary.”<sup>30</sup>

51. Roedd yr Arglwydd Morris yn ffafrio dull graddol o fynd i’r afael â goblygiadau cyfraith sy’n ymwahanu:

“To sum up, my approach is to build on developments; it is an incremental approach. I believe that the most practical proposal that you could make would be a presumption in the setting down of Welsh appeals or, as they say regarding administrative law ... of issuing cases that concern the administration of law in Wales. A presumption that they are set down is the machinery that unlocks that key. That would, first, help to develop the profession. Secondly, it would strengthen the case for appropriate court settings in Wales—the more cases that are set down, the more likely they are to be heard in Wales. Thirdly, it would bring justice closer to people more than anything else.”<sup>31</sup>

---

<sup>29</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 21 Mai 2012, paragraff 58 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>30</sup> Ibid, paragraff 65

<sup>31</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 25 Mehefin 2012, paragraff 31 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

52. Fodd bynnag, roedd gan Winston Roddick QC farn wahanol, a dywedodd wrthym na allai'r gyfundrefn gyfiawnder gael ei datganoli drwy esblygu. Aeth ymlaen i ddweud:

“In order to have a logical and workable system, you have to devolve them all at the same time, because you have the magistrates’ court, the Crown Court, the High Court and the Court of Appeal. They function as a body of courts. In my view, you have to devolve them all at the same time.”<sup>32</sup>

53. Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig, dywedodd Mr Ustus Roderick Evans y byddai awdurdodaeth ar wahân i Gymru yn dod yn angenrheidiol pe bai newidiadau penodol yn cael eu gwneud i setliad datganoli Cymru:

“One of the reasons frequently advanced for the distinction drawn between the nature of the devolution settlements in Scotland and Northern Ireland (a reserved powers model) and that in Wales (a transferred powers model) is that the former model is inappropriate for Wales as Wales does not have its own jurisdiction i.e. it does not have the necessary judicial structures to support such a devolutionary settlement. It follows from that argument that if Wales moves to a reserved powers model or intends to do so or gains a breadth of legislative competence which, for example, includes part of the justice system, a Welsh jurisdiction would be necessary.”<sup>33</sup>

54. Roedd Alan Trench o'r farn nad yw awdurdodaeth ar wahân i Gymru yn bosibl oni bai fod Cymru'n newid i gael model ar sail pwerau a gedwir yn ôl, fel a geir yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Esboniodd:

“the reserved powers model of conferring powers on the National Assembly..... would have significant benefits, because it would again make it clear whether devolved legislation was within competence or not. To my mind, that would be probably the biggest advantage if you were to move towards even a stripped-down jurisdiction, in that it would open the door to

---

<sup>32</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 11 Mehefin 2012, paragraff 67 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>33</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i'r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ19 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

getting to the model of legislative devolution that applies in Scotland and, in a slightly modified form, in Northern Ireland, where it is clearly understood. At the margins, it probably ensures that devolved legislation is within competence rather than not.”<sup>34</sup>

## **Rheoli a monitro ymwahanu yn yr awdurdodaeth unedig bresennol**

55. Cawsom dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod yr awdurdodaeth unedig bresennol yng Nghymru a Lloegr yn ymdrin â’r gwahaniaethau rhwng cyfreithiau’r ddwy wlad ar hyn o bryd, ac nad oedd yr achos wedi’i wneud hyd yn hyn dros sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru.

56. Er enghraifft, yn eu dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd 14 o farnwyr rhanbarth:

“Whilst we of course accept that in certain areas, the law in Wales will differ from that in England, we are of the opinion such differences are already being dealt with by the Courts.”<sup>35</sup>

57. Roedd Cymdeithas yr Ynadon o’r farn nad yw seilwaith Cymru wedi datblygu digon i gynnal awdurdodaeth ar wahân wedi’i datganoli’n llwyr.<sup>36</sup> Ychwanegodd:

“The cost of developing a supportive infra-structure would be huge, even when times are good, and in the current climate of austerity beyond reach.”<sup>37</sup>

58. Dywedodd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr:

“We are ... not convinced that Wales requires a separate legal jurisdiction and believe more generally that the default position of the Welsh Government should be that legislative and regulatory frameworks which impact on businesses in Wales

---

<sup>34</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 9 Gorffennaf 2012, paragraff 88 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>35</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i’r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ6 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>36</sup> Ibid, WJ5

<sup>37</sup> Ibid

should only diverge from those in England where there is a clear and demonstrable benefit.”<sup>38</sup>

59. Nododd Cyfreithwyr Hugh James nad oedd yr ymwahaniad rhwng cyfraith Cymru a Lloegr yn golygu bod rhaid sefydlu awdurdodaeth ar wahân. Fodd bynnag, nodwyd hefyd y gallai'r sefyllfa newid yn y dyfodol:

“The divergence between the law in England and the law in Wales brought about by devolution is increasing but, currently, it is not great. At present the extent of the divergence does not in itself require the setting up of a totally separate jurisdiction at this stage. However, given that the Assembly has now acquired the powers contained in Part IV of the 2006 Act and the possibility of further responsibilities and legislative competence, the legal arguments for a separate jurisdiction may strengthen. It is possible that before that point is reached the constitutional, social, democratic, economic and practical arguments will in any event have ensured a Welsh jurisdiction.”<sup>39</sup>

60. Roedd Cymdeithas Barnwyr Cymru yn teimlo y dylid monitro'r angen am awdurdodaeth ar wahân wrth i broses ddatganoli Cymru barhau.

“Increasing divergence between the law in England and Wales in the presently devolved fields will necessitate an on-going assessment of the need for a separate jurisdiction and if, as is often said, devolution is a process not an event, an on-going assessment will be made all the more necessary if the Assembly acquires legislative competence over matters beyond those set out in Part 4 of the Government of Wales Act 2006. One of the primary reasons given for limiting the devolution settlement in Wales to a conferred powers model rather than the reserved powers model which exists in Scotland and Northern Ireland is that Wales does not have its own jurisdiction. If Wales is to move to a reserved power model of devolution or to a degree of legislative competence which

---

<sup>38</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i'r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ3 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>39</sup> Ibid, WJ25



approximates to it, a separate Welsh jurisdiction is likely to be necessary. Similarly, if responsibility for significant parts of the justice system is transferred to the Welsh Government the creation of a Welsh jurisdiction would be a natural concomitant to such a development.”<sup>40</sup>

61. Soniodd y Gymdeithas hefyd am oblygiadau cadw awdurdodaeth unedig:

“If Wales is to continue within the unified jurisdiction of England and Wales it is essential that adequate provision be made to develop legal institutions in Wales to make the administration of justice more responsive to the needs of Wales, to develop structures which will complement and underpin the evolving constitutional position of Wales and make adequate provision to recognise and develop Wales’ present and emerging legal personality and characteristics.”<sup>41</sup>

62. Dywedodd yr Arglwydd Carlile wrthym hefyd y gellid gwneud newidiadau gweinyddol yn yr awdurdodaeth unedig bresennol i adlewyrchu’n well hunaniaeth gyfreithiol Cymru, sy’n dod i’r amlwg.

“There is a strong argument and my preference has long been—and I have not changed my view—for a Wales division of the High Court of Justice in which, for all practical purposes, all cases started in Wales would be heard in Wales. That would enable cases to be held bilingually where appropriate because Wales is well ahead of almost everywhere in the world in respect of bilingual hearings ... I think that there is a lot to be said for having a chief justice of Wales who would not necessarily sit only in Wales. He or she might sit in the Court of Appeal in London as well.

I think that there is a very strong argument for having two or three regional peripatetic High Court judges who, as Welsh judges, would be able to deal with all the most serious civil cases in Wales and some of the most serious criminal cases in Wales. There is a great deal to be said for having a completely

---

<sup>40</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [\*Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i’r ymgynghoriad\*](#), Mawrth 2012, WJ20 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>41</sup> Ibid

separate administration of the courts in Wales. Wales is both big enough and small enough for it to work really well.”<sup>42</sup>

### **Corff digonol o gyfreithiau Cymreig sy'n ymwahanu?**

63. Cododd nifer o dystion y cwestiwn ynghylch a oes corff digonol o gyfreithiau Cymreig i gynnal awdurdodaeth ar wahân. Nododd rhywfaint o'r dystiolaeth a gafwyd fod y diffyg corff o gyfreithiau Cymreig ar hyn o bryd yn gwanhau'r ddadl dros greu awdurdodaeth ar wahân.

64. Nododd Ei Anrhydedd y Barnwr Wyn Rees yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

“Ar hyn o bryd, yn absenoldeb corff o gyfreithiau cynhenid yng Nghymru sydd yn dylanwadu'n sylweddol ar waith y llysoedd yng Nghymru, anodd yw dadlau, yn fy marn i, o blaid sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru.”<sup>43</sup>

65. Fodd bynnag, nid oedd yn diystyru'r angen am awdurdodaeth ar wahân, os bydd pwerau ychwanegol dros gyfiawnder troseddol yn cael eu datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol yn y dyfodol.<sup>44</sup>

66. Dywedodd Richard Owen o Gymdeithas y Cyfreithwyr wrthym:

“At the moment, there is not the body of law to keep the administrative court going. The administrative court in Cardiff currently takes cases from the south-west of England. If we had a separated courts system, it would, presumably, no longer take those cases from the south-west of England. Its workload would, therefore, be quite small.”<sup>45</sup>

67. Wrth gyfeirio at briodweddau awdurdodaeth, dywedodd yr Athro John Williams o Brifysgol Aberystwyth yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

---

<sup>42</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 24 Medi 2012, paragraffau 30 i 31 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>43</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i'r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ17 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>44</sup> Ibid

<sup>45</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 12 Mawrth 2012, paragraff 25 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

“...In addition, Wales has a distinct and growing body of law. Whether the body of Welsh law is yet sufficiently large enough to support an independent Welsh court structure and legal institutions is debatable. One obvious but important observation to make is that there must be enough work for the courts to undertake, and enough work to support a Welsh legal profession.”<sup>46</sup>

68. Ailadroddodd y pwynt hwn yn ei dystiolaeth lafar:

“I think that there are additional aspects. One is a significant body of law in relation to which the jurisdiction can be exercised. One probably says that for mainly pragmatic reasons. Basically, there has to be enough work to keep the legal profession going and to keep the Welsh judiciary going. So, it is looking for the critical mass. If you look at the Isle of Man, for example, which is quite an interesting comparison, it is a very small country with a very small profession, but it has a significant corpus of law for which it is responsible. Otherwise, you get an occasional jurisdiction, as it were, where there is not enough work to keep it going. So, the points noted by Jones and Williams are prerequisites—population, territory, although perhaps territory is a bit iffy, and the legal infrastructure—but also, very importantly, you need a significant body of law that is subject to this jurisdiction.”<sup>47</sup>

69. Roedd eraill o’r farn na fyddai diffyg cyfreithiau Cymreig ar hyn o bryd yn rhwystr i greu awdurdodaeth ar wahân, yn enwedig dros gyfnod o amser.

70. Pan ofynnwyd i’r Athro Thomas Glyn Watkin a fyddai deddfwrfa effeithiol, os nad oedd ganddi gorff digonol o gyfreithiau pan ddechreuodd, yn cynhyrchu corff o’r fath yn fuan, dywedodd wrth y Pwyllgor:

---

<sup>46</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymateb ychwanegol* WJ - Yr Athro John Williams, Mawrth 2012

<sup>47</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 5 Mawrth 2012, paragraff 19 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

“Short of something totally unforeseeable happening, I think that we are on a one-way street towards reaching that point. The question is whether one prepares in advance to reach it, and has a solution that will be suitable, or waits until one collides with problems and has to produce something on the spur of the moment, which will not be best. That is why it is important that these issues are discussed fully at the present time.”<sup>48</sup>

71. Nododd yr Athro Gwynedd Parry y thema o gynllunio ymlaen llaw hefyd, a dywedodd wrth y Pwyllgor:

“Nid wyf yn credu y dylem ddweud, ‘Hyd nes y daw’r pwynt pan fydd gan Gymru gymaint â hynny o gyfreithiau gwahanol, nid oes dadl dros awdurdodaeth’. ... Rhyw fath o gynllunio adweithiol yw hynny, yn fy marn i, o ran anghenion Cymru...”<sup>49</sup>

72. Fodd bynnag, roedd tystion eraill yn teimlo nad oedd angen corff o gyfreithiau Cymreig o gwbl cyn gallu sefydlu awdurdodaeth ar wahân.

73. Er nad oedd yr Arglwydd Morris o Aberafan yn credu bod angen corff o gyfreithiau i greu awdurdodaeth, serch hynny, roedd yn teimlo y gallai cael corff o gyfreithiau ar wahân wneud yr achos yn fwy argyhoeddiadol:

“You could have a separate jurisdiction without a corpus of law. They are not dependent upon each other. However, the bigger the corpus of law perhaps the more persuasive is the case. That is why I perhaps keep my mind open about this, thinking that, perhaps in five or 10 years’ time or at some other suitable time, the case will be even stronger. However, at the moment, it does not necessarily follow logically. You can set up an

---

<sup>48</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 18 Mehefin 2012, paragraff 29 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>49</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 14 Mai 2012, paragraff 16 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

administration of justice on its own, up to a point, in Yorkshire, Lancashire or wherever or in Wales. It does not need it.”<sup>50</sup>

74. Fel y nodwyd eisoes ym mhennod flaenorol yr adroddiad hwn (gweler paragraff 30), dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym yn ei dystiolaeth lafar nad oes angen corff o gyfreithiau, o reidwydd, cyn creu awdurdodaeth ar wahân, ond nododd fod gennym eisoes gorff o gyfreithiau sy’n gymwys yng Nghymru.<sup>51</sup>

75. Wrth asesu a oes corff penodol a digonol o gyfreithiau Cymreig, mae hefyd yn bwysig nodi nad yw’r gyfraith yn cynnwys deddfwriaeth sylfaenol yn unig. Er y bu is-ddeddfwriaeth ar wahân mewn perthynas â Chymru ers blynyddoedd lawer, mae’n debygol bod y broses honno wedi cyflymu ers datganoli ym 1999. Tynnodd Winston Roddick QC ein sylw at waith ymchwil gan yr Athro Tim Jones a Jane Williams o Brifysgol Abertawe a oedd yn edrych ar y sefyllfa ystadegol ym mis Rhagfyr 2002:

“... You will see that there was a 367% increase over what the Welsh Office had published the year before the Assembly came into effect. So, the Assembly has been a prolific manufacturer of legislation, if I may say so. ...

Dividing it up, you can see how the instruments have been passed in the specific fields of responsibility. ... the final column is the Orders with distinctly Welsh content as percentage of the total, which is 45%. ...

Where have we gone in the 11 years since then? In measuring the extent to which the process of emergence has continued since Jones and Williams concluded on the basis of their 2002 statistics that it was an emerging jurisdiction, that was four years before the second devolution settlement and 11 years before the Assembly acquired full legislative competence. So, if

---

<sup>50</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 25 Mehefin 2012, paragraff 42 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>51</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 16 Gorffennaf 2012, paragraff 17 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

you could draw that conclusion in 2002, you can see the strength of the conclusion that one can draw now.”<sup>52</sup>

### ***Ein barn ni***

76. Rydym yn cydnabod bod cyfreithiau Cymreig gwahanol yn dod i'r amlwg o fewn yr awdurdodaeth unedig bresennol a bod yr ymwahanu rhwng cyfreithiau sy'n gymwys yng Nghymru a Lloegr yn debygol o gynyddu dros amser, yn enwedig wrth i atebion deddfwriaethol gwahanol ar bynciau tebyg gael eu datblygu a'u rhoi ar waith.

77. Rydym hefyd yn nodi nad yw ymwahanu rhwng cyfreithiau Cymru a Lloegr yn dibynnu ar ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unig, gan fod Senedd y DU yn gynyddol yn gwneud cyfreithiau sy'n gymwys i Loegr yn unig ac sy'n wahanol i'r rhai sy'n gymwys i Gymru. Rydym hefyd yn derbyn y bydd ymwahanu o fewn awdurdodaeth unedig i Gymru a Lloegr yn gosod heriau ymarferol a gweinyddol ar y model awdurdodaeth presennol wrth i nodweddion cyfreithiol a hunaniaeth Cymru ddod i'r amlwg dros y blynyddoedd i ddod. O ganlyniad, er ein bod yn credu bod creu awdurdodaeth ar wahân yn bosibl yn gyfansoddiadol, gellir ymdrin ag anawsterau ymarferol o'r fath ar hyn o bryd o fewn y strwythur unedig presennol.

78. Fodd bynnag, credwn fod y cwestiwn a ddylid cael awdurdodaeth ar wahân i Gymru ai peidio yn un gwleidyddol yn y pen draw, a mater ar gyfer dadleuon a thrafodaethau gwleidyddol y dyfodol fydd penderfynu union fanylion sut y dylid ei sefydlu.

79. Er ein bod yn derbyn y bydd anawsterau ymarferol yn cynyddu wrth i gyfraith Cymru a Lloegr barhau i ymwahanu, ni ddylai anawsterau o'r fath bennu a ddylid sefydlu awdurdodaeth ar wahân. Yn hytrach, gallant fod yn ffactor sy'n penderfynu cyflymder newid yn y dyfodol.

80. Yn benodol, rydym yn cydymdeimlo â'r dystiolaeth ysgrifenedig a gafwyd gan Gymdeithas Barnwyr Cymru sy'n dweud, os yw Cymru am barhau i weithredu o fewn awdurdodaeth unedig, y dylid ystyried datblygu sefydliadau cyfreithiol pwrpasol yng Nghymru i wneud y

---

<sup>52</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 11 Mehefin 2012, paragraffau 31 a 32 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

gwaith o weinyddu cyfiawnder mewn modd sy'n fwy ymatebol i anghenion Cymru, a fyddai hefyd yn cydnabod ac yn datblygu ei hunaniaeth a'i nodweddion cyfreithiol sy'n dod i'r amlwg. Rydym hefyd yn nodi sylwadau yr Arglwydd Carlile y dylai hyn gynnwys is-adran ar wahân i Gymru o fewn yr Uchel Lys Cyfiawnder i eistedd ochr yn ochr ag is-adrannau presennol yr Uchel Lys, sef y Teulu, Mainc y Frenhines a'r Siawnsri.

81. Wrth wneud y sylwadau uchod, fodd bynnag, rydym yn derbyn barn rhai tystion a awgrymodd y byddai'r achos dros sefydlu awdurdodaeth ar wahân yn cael ei gryfhau'n sylweddol pe bai Cymru'n symud i gael model ar sail pwerau a gedwir yn ôl ac yn ennill cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol sylweddol, yn enwedig mewn perthynas â'r system gyfiawnder. Caiff materion yn ymwneud â datganoli cyfiawnder troseddol eu hystyried yn fanwl ym Mhennod 8 o'r adroddiad hwn.

82. O ran a oes corff digonol o gyfreithiau Cymreig i gynnal awdurdodaeth ar wahân, rydym yn cytuno â'r Cwnsler Cyffredinol fod gan Gymru eisoes gorff o gyfreithiau a bod y corff hwnnw'n cynnwys nid yn unig deddfau sylfaenol a wnaed gan y Cynulliad ers 2007, ond hefyd corff ar wahân o is-ddeddfwriaeth Gymreig, sydd wedi cyflymu ers datganoli ym 1999. Yn ogystal, nid ydym yn gweld unrhyw reswm pam na fyddai Cymru'n etifeddu corff o gyfreithiau presennol Cymru a Lloegr os bydd awdurdodaeth ar wahân yn cael ei chreu yn y dyfodol.

**Casgliad 5: Rydym yn derbyn y bydd y ddadl o blaid sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru yn cael ei chryfhau, wrth i gyfreithiau yng Nghymru a Lloegr barhau i ymwahanu.**

**Casgliad 6: Fel yng Nghasgliad 3, credwn y dylid gwneud mwy o fewn y strwythurau presennol i ddatblygu sefydliadau cyfreithiol yng Nghymru i wneud y gwaith o weinyddu cyfiawnder sy'n fwy ymatebol i anghenion Cymru ac i gydnabod a datblygu ei hunaniaeth gyfreithiol sy'n dod i'r amlwg.**

**Fel yr ydym wedi'i ddatgan eisoes, dylai'r gwaith hwn gynnwys yr addasiadau ymarferol uniongyrchol a amlinellwyd yn argymhellion 1 (hyfforddiant cyfreithiol i ymarferwyr), 2 (newidiadau i'r rheolau trefniadaeth sifil), 3 (comisiwn y gyfraith), 4 (ymdrin â chyfreithiau dwyieithog) a 5 (penodi barnwyr y Goruchaf Lys).**

**Casgliad 7: Penderfyniad gwleidyddol yw a ddylid cael awdurdodaeth ar wahân i Gymru ai peidio yn y pen draw, a mater ar gyfer dadleuon a thrafodaethau gwleidyddol y dyfodol fydd penderfynu union fanylion sut y dylid ei sefydlu.**



## 5. Y goblygiadau i'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru

---

83. Gofynnodd y Pwyllgor am dystiolaeth am effaith sefydlu awdurdodaeth ar wahân ar y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru.

84. Mynegodd Mr Ustus Roderick Evans y farn a ganlyn: “the present jurisdiction is wholly London-centric. All its institutions are based in London and Wales is treated for practical purposes just as another circuit of England.”<sup>53</sup> Aeth ymlaen i ddadlau bod hyn wedi cael yr effaith a ganlyn:

“...[it] has inhibited the development of expertise in certain specialised areas of practice. For example, the fact that until comparatively recently all Judicial Review cases were heard in London meant that few practitioners in Wales developed or had the scope to develop a practice in that field. However, the opening of the Administrative Court in Cardiff and the possibility of doing this work in Wales has caused some practitioners to develop the necessary knowledge and expertise.”<sup>54</sup>

85. Roedd Emyr Lewis a'r Athro Wincott yn credu y byddai'n rhaid cael rhyw fath o brawf cymhwyster i gyfreithwyr ymddangos mewn Llysoedd yng Nghymru<sup>55</sup>, ond nid oedd llawer o dystion eraill yn gweld unrhyw rwystr a fyddai'n atal cyfreithwyr o Gymru rhag parhau i ymddangos mewn llysoedd yn Lloegr ac atal cyfreithwyr o Loegr rhag ymddangos mewn llysoedd yng Nghymru. Er enghraifft, dywedodd yr Anrhydeddus Mr Ustus Evans:

“[If] Wales and England were to have separate jurisdictions each would be a Common Law jurisdiction and the fundamental concepts of the law would be similar. There is no reason why Welsh lawyers should not continue to be able to practice in

---

<sup>53</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i'r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ19 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>54</sup> Ibid

<sup>55</sup> Ibid, WJ28

England and to have rights of audience in English courts or why English lawyers should not be in the same position in Wales.”<sup>56</sup>

86. Dywedodd yr Arglwydd Carlile:

“I would see a particular Welsh qualification as a requirement as being disadvantageous. I would not be against making available a Welsh qualification as a bonus that would mark people out as perhaps being noted as specialised to qualify in Wales, and I would expect, certainly among the Bar, which I know about, almost every barrister practising in Wales to take it.”<sup>57</sup>

87. Dywedodd Elfyn Llwyd AS:

“If you are to deal adequately with Welsh laws, you will need people to be trained sufficiently. As the body of law increases, there will be a need for lawyers practising in Wales to be properly trained in Welsh law. If I may further add that I have been a member of the Bar for 14 years and, before that, for some 22 years, I was a solicitor. I practise mostly in family and criminal law, and if I did not know how the Welsh family laws have gone, particularly children’s law and so on, I could not practise now.”<sup>58</sup>

88. Yn ystod ein hymweliad â Gogledd Iwerddon, clywsom fod hyfforddiant cyfreithiol pwrpasol wedi esblygu sy’n cydfynd ag addysg gyfreithiol gyffredinol ar y gyfraith gyffredin. Mae hyn yn caniatáu i ysgolion y gyfraith Gogledd Iwerddon recriwtio myfyrwyr o’r tu allan i’r wlad.

### ***Ein barn ni***

89. Rydym yn nodi barn y tystion ac yn credu’n gryf na ddylai creu awdurdodaeth ar wahân yn y dyfodol osod rhwystrau ychwanegol i ymarferwyr cyfreithiol yng Nghymru. Fodd bynnag, credwn y dylai

---

<sup>56</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i’r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ19 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>57</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 24 Medi 2012, paragraff 56 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>58</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 28 Mai 2012, paragraff 43 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

hyfforddiant cyfreithiol gael ei ddatblygu ymhellach pe bai awdurdodaeth ar wahân yn cael ei datblygu er mwyn adlewyrchu'n well draddodiadau cyfreithiol Cymru a'i hunaniaeth gyfreithiol newydd. Yn benodol, efallai y byddai sefydlu cymhwyster ychwanegol ym maes cyfraith Cymru i'w weld fel rhywbeth dymunol.

**Argymhelliad 1: Wrth i gorff o gyfreithiau Cymreig esblygu dros amser, rydym yn argymhell y dylai hyfforddiant cyfreithiol ychwanegol gael ei drefnu er mwyn caniatáu i arbenigedd ddatblygu, gan adlewyrchu traddodiadau cyfreithiol Cymru a'i hunaniaeth gyfreithiol newydd. Dylai hyn gynnwys codi ymwybyddiaeth yn Lloegr ynghylch yr ymwahanu cynyddol rhwng cyfreithiau sy'n gymwys yng Nghymru a Lloegr.**

## 6. Achosion yn Llysoedd Cymru

---

90. Roedd llawer o'r dystiolaeth yn nodi bod sefydlu llys gweinyddol yng Nghaerdydd wedi bod yn ddatblygiad pwysig. Fodd bynnag, roedd ychydig o'r dystiolaeth yn nodi bod achosion gweinyddol sy'n gysylltiedig â Chymru yn parhau i gael eu cychwyn a'u trafod y tu allan i Gymru, yn Llundain yn benodol.

91. Nododd Gymdeithas y Barnwyr yng Nghymru:

“At present, those differences can be accommodated within the present judicial structures and, of themselves, do not require a Welsh jurisdiction, with one embryonic but growing exception: the Administrative Court in Wales where a significant proportion of the cases already involve the application of Welsh law. The situation in this court is made more difficult by the ability of litigants to commence Welsh proceedings in London where there is a lengthy delay – perhaps 9 months or so – before directions are given to transfer the case to Cardiff. This unsatisfactory state of affairs does need to be remedied: a means to do so might be an amendment to the Civil Procedure Rules requiring that Welsh cases be commenced and heard in Cardiff.”<sup>59</sup>

92. Mae Ysgol y Gyfraith Prifysgol Bangor wedi ymchwilio i waith achos y llys gweinyddol. Daeth i'r casgliadau a ganlyn:

“A high proportion of Welsh claimants and solicitors choose to issue their claims in London. There may be a number of reasons for this, i.e. the gravitas attached to litigating at the Royal Courts of Justice in London and concern for the quality and consistency of justice dispensed by judges outside London. Lack of awareness may be another factor. Approximately half of all claims involving a Welsh public authority or the Welsh Assembly Government are issued in London and the factor seemingly most influential in the choice of issue location is the

---

<sup>59</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i'r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ20 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

instruction by Welsh defendants of London-based specialist barristers.”<sup>60</sup>

93. Dywedodd Richard Owen o Gymdeithas y Cyfreithwyr:

“At the moment, there is not the body of law to keep the administrative court going. The administrative court in Cardiff currently takes cases from the south-west of England. If we had a separated courts system, it would, presumably, no longer take those cases from the south-west of England. Its workload would, therefore, be quite small. You could do this in a number of ways. You could have a separate jurisdiction for the 20 devolved subject areas, while there would not be a separated jurisdiction for the England-and-Wales areas, which would probably create a greater body of work for the administrative court in Cardiff.”<sup>61</sup>

94. Awgrymodd Mr Imperato, hefyd o Gymdeithas y Cyfreithwyr, y dylid newid y rheolau trefniadaeth ar unwaith:

“The court rules that govern how we deal with cases procedurally are called the civil procedure rules. They set out how you have to issue proceedings—how many days you have to do this, how many copies of this you have to file at court and so on. Some of it is very mechanical in its way. You could have what they call a practice direction. For example, the rules could say that, no matter where it was issued in the country, if a case—and I am talking about a commercial or personal injury claim, not an administrative law case—had a particular Welsh hue and dealt with Welsh law generated in Wales, it should be transferred to Wales and looked at by a Welsh judge who had a qualification or extra training to deal with such cases. You could also have some Welsh procedures attached to it—a provision for there to be translation or to include in court bundles reference to Welsh guidance and previous Welsh decisions on that area of law. That already exists in particular

---

<sup>60</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i'r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ24 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>61</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 12 Mawrth 2012, paragraff 25 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

types of law. For example, with mercantile law, commercial law, there is a practice direction that says that you should issue it in the mercantile courts and that it should be dealt with by a mercantile judge. That is a possible way forward so that, now, we could have Welsh-element cases looked at in the Welsh context. It would be a purely administrative measure to put into effect, and it would be very simple.”<sup>62</sup>

95. Hefyd, mynegodd Mr Imperato ei siom yn sgîl newidiadau gweinyddol diweddar sy'n golygu y bydd holl hawliadau arian yng Nghymru a Lloegr yn cael eu gwneud o lys sirol Salford a chymorth yn yr iaith Gymraeg yn cael ei darparu yng Nghaernarfon:

“On the issue of access to justice, on 19 March all money claims in England and Wales, namely personal injury claims, contract claims, and those types of civil claims—not administrative law or family law, but virtually everything else in the civil world; and personal injury is my speciality—must be issued out of Salford county court. I am also president of the Cardiff and District Law Society and, speaking on its behalf, it was disappointed with that position. One is concerned about Salford’s ability to deal with matters that are uniquely Welsh, particularly matters to do with the Welsh language. Therefore, it is not something that was widely consulted on or considered. It is a big issue, which is affecting us at this moment.”<sup>63</sup>

### ***Ein barn ni***

96. Rydym yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan lawer o dystion fod achosion o Gymru yn parhau i gael eu trafod yn Llundain yn hytrach na Chaerdydd, er bod y dystiolaeth ar y cyfan yn aneglur o ran pam fod hyn yn digwydd. Rydym hefyd yn cytuno â'r dystiolaeth a gafwyd gan Gymdeithas y Cyfreithwyr a Chymdeithas y Barnwyr yng Nghymru y gellir datrys y materion hyn drwy newid y Rheolau Trefniadaeth Sifil sy'n penderfynu sut mae achosion yn cael eu trafod yn drefniadol yn llysoedd Cymru a Lloegr.

---

<sup>62</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 12 Mawrth 2012, paragraff 67 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>63</sup> Ibid, paragraff 63

97. Roeddem hefyd yn pryderu ar ôl clywed, wrth gymryd tystiolaeth, fod yr holl hawliadau arian yng Nghymru a Lloegr bellach yn cael eu prosesu drwy Lys Sirol Salford. O ganlyniad i hyn, credwn y bydd yn rhaid i unrhyw newidiadau arfaethedig i weinyddu cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr sy'n effeithio ar ddatblygu hunaniaeth gyfreithiol Gymreig fod yn ddarostyngedig i ymgynghoriad ystyrlon yn y dyfodol.

**Argymhelliad 2: Rydym yn argymhell bod y Rheolau Trefniadaeth Sifil yn cael eu diwygio i sicrhau bod achosion cyfraith gyhoeddus sy'n ymdrin â materion Cymreig yn bennaf yn cael eu cychwyn yn y llys gweinyddol yng Nghaerdydd yn gyffredinol, neu eu trosglwyddo i'r llys hwn.**

**Casgliad 8: Credwn y bydd yn rhaid i unrhyw newidiadau arfaethedig i weinyddu cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr sy'n effeithio ar ddatblygu hunaniaeth gyfreithiol Gymreig fod yn ddarostyngedig i ymgynghoriad ystyrlon yn y dyfodol.**

## 7. Cymariaethau ag awdurdodaethau cyfraith gyffredin bychan eraill

---

98. Roedd cylch gorchwyl yr ymchwiliad yn cynnwys edrych ar waith awdurdodaethau bychan eraill, yn enwedig awdurdodaethau y gyfraith gyffredin. Mae nifer o'r rhain o fewn y Deyrnas Unedig ac Ynysoedd Prydain, gan gynnwys Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sanel. Mae nodyn a baratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ar gyrff ac adnoddau cyfreithiol yn Jersey, Guernsey ac Ynys Manaw wedi'i gynnwys fel Atodiad 5 i'r adroddiad hwn er gwybodaeth.

99. Hefyd, tynnwyd sylw'r Pwyllgor at awdurdodaethau bychan y tu hwnt i Ynysoedd Prydain, a chlywsom dystiolaeth lafar gan Mr David Hughes, Bargyfreithiwr sydd â phrofiad uniongyrchol o weithio yn Gibraltar.<sup>64</sup>

100. Fodd bynnag, y gymhariaeth fwyaf amlwg â'r sefyllfa yng Nghymru o ran maint, statws fel awdurdodaeth y gyfraith gyffredin a rheolaeth wleidyddol gan Gynulliad deddfwriaethol datganoledig yw Gogledd Iwerddon. Aeth y Pwyllgor ar ymweliad â Gogledd Iwerddon ym mis Mehefin, ac mae adroddiad ar yr ymweliad a'r trafodaethau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor wedi'u hamlinellu yn Atodiadau 2 a 3 i'r adroddiad hwn.

101. Fel cyn Dwrnai Cyffredinol Gogledd Iwerddon, cynigiodd yr Arglwydd Morris o Aberafan gipolwg ar waith awdurdodaeth Gogledd Iwerddon yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor.<sup>65</sup>

### ***Ein barn ni***

102. Credwn fod bodolaeth awdurdodaethau bychan eraill ledled Ynysoedd Prydain, yn enwedig yng Ngogledd Iwerddon ond hefyd ar Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sanel, yn dangos y gall strwythurau o'r fath weithio mewn cyd-destun priodol.

---

<sup>64</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i'r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ17 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>65</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i'r ymgynghoriad: Ymateb ychwanegol WJ – Y gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Morris o Aberafan KG QC](#), Mawrth 2012,



103. O ganlyniad i hyn, credwn y byddai'r cipolwg ar waith awdurdodaethau bychan yng nghyd-destun Prydain y mae'r esiamplau hyn yn ei ddarparu yn werthfawr iawn os caiff awdurdodaeth ar wahân ei sefydlu yng Nghymru.

**Casgliad 9: Rydym yn awgrymu y dylai unrhyw waith paratoadol sy'n cael ei wneud cyn sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru yn y dyfodol edrych ar waith awdurdodaethau cyfraith gyffredin bychan eraill, yn enwedig Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel.**

## 8. Cynnwys cyfraith trosedd mewn awdurdodaeth i Gymru

---

### Ystyr cyfraith trosedd

104. Yn ystod yr ymchwiliad, amlinellodd y Cwnsler Cyffredinol yr hyn yr oedd yn ei gredu yr oedd cyfraith trosedd yn ei olygu:

“I believe that when people use expressions like that (“criminal law”) they are talking about criminal justice and the running of the criminal courts.”<sup>66</sup>

105. Aeth ymlaen i ddweud: “we are talking about and we are looking at the possibility of devolution of that area.”<sup>67</sup>

106. Mewn araith i Gymdeithas yr Ysgolheigion Cyfreithiol yng Nghaerdydd ar 18 Tachwedd 2012, eglurodd y Cwnsler Cyffredinol beth fyddai datganoli cyfraith trosedd yn ei olygu’n ymarferol, gan ddatgan y byddai’n cynnwys yr agweddau a ganlyn:

“... policing, the Crown Prosecution Service, criminal courts and sentencing, the probation service, the prison service and youth justice.”<sup>68</sup>

107. Fodd bynnag, awgrymodd Alan Trench nad oes un diffiniad o’r hyn y gallai gael ei ddatganoli o dan gyfraith trosedd a bod y term hwnnw, yng nghyd-destun datganoli i Gymru, yn aneglur ac yn gallu cyfeirio at amrywiaeth o feysydd:

“When it comes to working out what criminal law is, again, it is far from clear to me what this means ...

So, is the National Assembly to have the power to enact legislation relating to the law of theft, or the law of assault on another person? ... Are you talking about the devolution of policing? Are you talking about the devolution of sentencing, or judicial appointments, or matters relating to the criminal court system generally? Are you talking about the devolution of the

---

<sup>66</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#), 16 Gorffennaf 2012, paragraff 152 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>67</sup> Ibid

<sup>68</sup> Click on Wales, [Wales, a Jurisdiction?](#) 18 Tachwedd 2012

operation of prisons, and what we now call offender management, or probation? I think that you need to unpack the question of what ‘criminal justice’ means.”<sup>69</sup>

108. Nid yw’r cyfrifoldeb dros y rhan fwyaf o feysydd cyfiawnder troseddol a chyfraith trosedd wedi ei ddatganoli ac felly’n parhau i fod yn fater i Lywodraeth a Senedd y DU. Fodd bynnag, mae rhai swyddogaethau penodol mewn perthynas â chyfraith trosedd wedi’u datganoli i’r Cynulliad a Gweinidogion Cymru. Mae’r rhain yn cynnwys pwerau i’r Cynulliad greu troseddau mewn perthynas â phynciau yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i Weinidogion Cymru wneud hynny pan fydd pwerau wedi’u dynodi iddynt at ddibenion gwneud rheoliadau i weithredu a gorfodi cyfraith yr UE.

109. O ganlyniad i hyn, roedd yr Athro Gwynedd Parry yn teimlo bod Gweinidogion Cymru eisoes yn gweithredu mewn rhai o feysydd y system gyfiawnder troseddol a bod hyn:

1. Er bod system awdurdodaeth Gogledd Iwerddon yn gymharydd defnyddiol i Gymru (yn enwedig yr agwedd ymarferol arni), mae angen deall yn well y rhesymau pam y mae wedi'i ffurfio fel y mae (yn enwedig y Llysoedd Apêl). Mae'r ffactorau hanesyddol yn bwysig.
2. Er bod pwyslais Gogledd Iwerddon ar fynediad at gyfiawnder yn bwysig (cysyniad y 'Canolfannau Cyfiawnder'), rhaid ystyried mater y rhaniad/diffyg rhaniad rhwng gwrandawiadau achosion troseddol ac achosion sifil.
3. Ar hyn o bryd, mae Cymru wedi cyrraedd pwynt lle y mae angen dygymod â chanlyniadau'r ymwahanu deddfwriaethol a gafwyd hyd yma, ac i ddarparu ar gyfer rhagor o ymwahanu deddfwriaethol yn y

dyfodol. O ganlyniad, wrth ystyried sefydlu awdurdodaeth ar wahân, rhaid ateb y cwestiynau a ganlyn: (1) Pa angen yr ydym yn ceisio ei ddiwallu? a (2) Pa faterion sy'n cael eu datrys?

4. Mae'n hanfodol sefydlu swyddogaeth Comisiwn y Gyfraith sydd â chylch gwaith digon eang, a sicrhau bod Llyfr Statud a sylwebaeth ddigonol.

5. Gwella mynediad at gyfiawnder ddylai fod yn ddiben pennaf proses ddiwygio.

6. Er ei bod yn awdurdodaeth fach, mae Gogledd Iwerddon yn gweithredu system gyfiawnder effeithiol, ac nid yw'n cael anhawster mawr, er enghraifft, o ran gweithredu Llysoedd Uwch.

7. Mae Gogledd Iwerddon wedi datblygu hyfforddiant cyfreithiol pwrpasol sy'n cydreddeg ag addysg gyfreithiol gyffredinol ym maes y gyfraith gyffredin. Mae hyn yn caniatáu i ysgolion y gyfraith yng Ngogledd Iwerddon recriwtio myfyrwyr o du allan i'r wlad, er mai lleiafrif ydynt.

## **Atodiad 3: Materion a grybwyllwyd mewn trafodaethau: Y Sefydliad Astudiaethau Cyfreithiol Proffesiynol (Gogledd Iwerddon)**

---

Cafodd y materion a ganlyn eu crybwyll yn y drafodaeth:

- Y cwrs ôl-radd a gaiff ei gydnabod yn fyd-eang, ac sy'n unigryw;
- Recriwtio;
- Adnoddau addysg gyfreithiol;
- Argaeledd cyfraith achosion a sylwebaeth.

Cafodd y Sefydliad Astudiaethau Cyfreithiol Proffesiynol ("y Sefydliad") ei sefydlu ym 1977 ym Mhrifysgol Queen's yn Belfast. Mae'n darparu cwrs ôl-radd blwyddyn unigryw, a gaiff ei gydnabod yn rhyngwladol, a hynny i fargyfreithwyr dan hyfforddiant a chyfreithwyr dan hyfforddiant sy'n astudio gyda'i gilydd. Mae'n datgan yr hyn a ganlyn ar ei wefan:

Committed to excellence since its inception, the Institute continually monitors and adjusts its performance, its courses and services to ensure its trainees receive the utmost quality. Over the years the Institute has modified the course to allow for greater and more structured integration of direct field experience. Today, the Institute's course is a central component of the overall training programme for lawyers. This programme comprises training in a vocational law school and supervised in-practice training.

Er bod y Sefydliad yn rhan o'r Brifysgol, mae ganddo gysylltiadau â'r ddau gorff sy'n rheoli proffesiwn y gyfraith yng Ngogledd Iwerddon, sef Cymdeithas Anrhydeddus Neuadd Brawdlys Gogledd Iwerddon a Chymdeithas Cyfreithwyr Gogledd Iwerddon. Mae'r cyrff hyn yn gyfrifol am hyfforddi a derbyn bargyfreithwyr a chyfreithwyr, yn y drefn honno, ond maent wedi dirprwyo rhan o'r cyfrifoldeb hwnnw i'r Sefydliad. Felly, mae'r Sefydliad yn atebol i'r proffesiynau yn ogystal ag i'r Brifysgol. Mae'r broses o rannu gwybodaeth rhwng y Sefydliad a phroffesiwn y gyfraith, ac o drafod â'i gilydd, yn hanfodol i waith y Sefydliad ac o ran gallu dilysu ei gymhwyster.

Rhoddir strwythur ffurfiol a fforwm i'r cysylltiadau rhwng y ddau gorff proffesiynol, y Brifysgol a'r Sefydliad gan gorff llywodraethu'r Sefydliad, sef y Cyngor Addysg Gyfreithiol. Caiff ei gadeirio gan Feistr Ustus Weir, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr y Brifysgol, Neuadd y Frawdlys, Cymdeithas y Cyfreithwyr, a'r Sefydliad. Yn ei gyfarfodydd, bydd y Cyngor yn sicrhau y rhoddir gwybod i'r Sefydliad am anghenion a barn y proffesiwn y mae'n ei wasanaethu, sy'n datblygu drwy'r amser.

I gael lle yn y Sefydliad, mae'n rhaid bod gan yr ymgeiswyr radd gydnabyddedig yn y gyfraith, a'u bod yn llwyddo mewn prawf derbyn cystadleuol. Hefyd, rhaid i gyfreithwyr dan hyfforddiant fod wedi cael lle ar brentisiaeth cyn y gallant ddechrau astudio yn y Sefydliad. Yn y Sefydliad, bydd cyfreithwyr a bargyfreithwyr yn astudio gyda'i gilydd ac yn arbenigo wedyn. Yng Ngogledd Iwerddon (fel mewn mannau eraill yn y DU) mae'r bwch rhwng swyddi bargyfreithwyr a chyfreithwyr yn culhau: mae mwy a mwy o 'gyfreithwyr adfocad' (hynny yw, cyfreithwyr sydd â'r hawl i ddadlau dros eu hachosion yn y llys) yn cael eu recriwtio. Mae'r Sefydliad yn cyfuno hyfforddiant i gyfreithwyr a bargyfreithwyr ac, wrth wneud hynny, mae'n osgoi dyblygu adnoddau yn ddiangen. Mae manteision ychwanegol yn gysylltiedig â hyfforddi ar y cyd, gan gynnwys galluogi dwy ochr y proffesiwn i gael gwybod am waith ei gilydd, a hyrwyddo'r ymdeimlad o fod yn gweithio fel tîm er budd y cleient.

Bydd rhai o'r gweithwyr proffesiynol y mae'r Sefydliad yn eu hyfforddi yn mynd ymlaen i weithio yn y farnwriaeth. Daw mwyafrif yr hyfforddeion o Ogledd Iwerddon. Ni waeth ymhle yn y DU y byddant yn cael eu gradd, bydd y Sefydliad yn eu cofrestru i wneud y Diploma Ôl-radd mewn Astudiaethau Cyfreithiol Proffesiynol. Ar hyn o bryd, mae'r Sefydliad yn cydnabod y mwyafrif o'r graddau yn y gyfraith yn y DU. Rhaid i bob un ohonynt gynnwys wyth pwnc craidd: Contractau, Camweddau, Cyfraith Trosedd, yr UE, Tystiolaeth, Ecwiti a Chyfraith Tir. Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr yn cynnig y dylai Cyfraith Tir Gogledd Iwerddon fod yn bwnc craidd yn lle Cyfraith Tir. Daw mwyafrif myfyrwyr israddedig a myfyrwyr graddedig Prifysgol Queen's o Ogledd Iwerddon. Maent yn cael eu gradd ac yn mynd ar drywydd eu gyrfaedd gwaith yng Ngogledd Iwerddon. Hyd yn oed os byddant yn gweithio am gyfnod mewn



rhai o'r cwmnïau mwyaf blaenllaw sydd â'u pencadlysoedd yn y DU, maent yn tueddu i ddychwelyd i Ogledd Iwerddon wedyn.

Fodd bynnag, mae'r sefyllfa yn wahanol yng Nghymru - mae mwy o drosglwyddo rhwng Cymru a Lloegr, a dylid ystyried hyn. Dylid ystyried y ffynonellau a ddefnyddir i recriwtio i broffesiwn y gyfraith, a hynny ar lefelau israddedig ac ôl-raddedig, wrth sefydlu system addysg sy'n cydymffurfio â'r awdurdodaeth ar wahân. Yn gyffredinol, mae mwy o amrywiaeth yng Nghymru o ran ysgolion y gyfraith nag a geir yng Ngogledd Iwerddon: gan fod llawer o'r bobl a gaiff eu recriwtio yn dod o Loegr a mannau eraill, rhaid sicrhau bod ysgolion y gyfraith yn aros yn rhai generig.

Er bod nifer o feysydd y gyfraith yng Ngogledd Iwerddon yn wahanol i'r rheini yng Nghymru a Lloegr (ee yr Uchel Lys, Cyfraith Teulu a gweithdrefnau Llysoedd Sirol), mae cyfraith trosedd a chyfraith tir Gogledd Iwerddon yn arbennig yn peri bod angen cynhyrchu llawer o ddeunyddiau ar gyfer myfyrwyr. Rhaid i'r cyhoeddiadau hyn gael eu hadnewyddu yn flynyddol. Mae mwyafrif y deunyddiau ar gael ar y we bellach. Er bod cyfraith Gogledd Iwerddon yn wahanol, mae'r deunyddiau sy'n ymwneud â mwyafrif y materion cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr yn parhau'n berthnasol iawn.

## **Comisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon**

Cafodd y materion a ganlyn eu crybwyll yn y drafodaeth:

- Cyfansoddiad Comisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon
- Sut y penderfynir ar ei raglen waith.
- Sut y mae'n ymgymryd â'i waith.
- Pa waith y mae wedi'i wneud ers iddo gael ei greu yn 2007.

Sefydlwyd Comisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon (y Comisiwn) yn 2007 yn dilyn argymhellion y Grŵp Adolygu Cyfiawnder Troseddol. Cafodd y Comisiwn ei sefydlu o dan Ddeddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2002 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Gogledd Iwerddon 1998 (Datganoli Swyddogaethau Plismona a Chyfiawnder) 2010. Ei brif orchwyl yw adolygu meysydd y gyfraith a gwneud

argymhellion ynghylch diwygio. Caiff nifer o ddulliau penodol o ddiwygio eu cynnwys yn narpariaethau Deddf 2002 (fel y'i diwygiwyd).

- Symleiddio a moderneiddio;
- Cyfundrefnu;
- Dileu anghysondebau;
- Diddymu deddfwriaeth nad yw o ddefnydd ymarferol mwyach;
- Lleihau nifer y darpariaethau cyfreithiol ar wahân.

Hefyd, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried unrhyw gynigion ynghylch diwygio cyfraith Gogledd Iwerddon a gaiff eu cyfeirio at y Comisiwn. Rhaid i'r Comisiwn gyflwyno rhaglenni ynghylch archwilio gwahanol ganghennau'r gyfraith, gyda golwg ar ddiwygio, i Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon. Rhaid i Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon ymgynghori â Thwrnai Cyffredinol Gogledd Iwerddon cyn cymeradwyo unrhyw raglen a gaiff ei chyflwyno gan y Comisiwn.

Rhaid i Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon ymgynghori ag Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon cyn cymeradwyo unrhyw raglen a baratowyd gan y Comisiwn sy'n cynnwys archwilio unrhyw gangen o'r gyfraith sy'n ymwneud yn llwyr neu'n rhannol â mater a gadwyd yn ôl neu a eithrir, neu gyfuno neu ddiddymu unrhyw ddeddfwriaeth sy'n ymwneud yn llwyr neu'n rhannol â mater a gadwyd yn ôl neu a eithrir.

Mae'r Comisiwn yn cynnwys pum Comisiynydd rhan amser. Caiff y Cadeirydd (sydd hefyd yn un o'r Comisiynwyr) ei benodi o Fainc Uchel Lys Gogledd Iwerddon. O ran y pedwar Comisiynydd arall, rhaid i un ohonynt ddod o broffesiwn y cyfreithwyr; un o Far Gogledd Iwerddon; un o'r byd academiaidd, ym maes y gyfraith; a rhaid i un ohonynt ddod o faes y tu allan i'r proffesiynau cyfreithiol.

### **Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Gogledd Iwerddon**

Cafodd y materion a ganlyn eu crybwyll yn y drafodaeth:

- Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Gogledd Iwerddon yn gorff newydd – sut y mae ei rôl wedi newid?
- Rhagor o wybodaeth am y Swyddfa Gorfodi Dyfarniadau
- Rhagor o wybodaeth am Gomisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol Gogledd Iwerddon

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Gogledd Iwerddon (NICTS) yn asiantaeth a ddaw o dan y Gyfarwyddiaeth Mynediad at Gyfiawnder yn Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon. Cyn i blismona a chyfiawnder gael eu datganoli, Adran yr Arglwydd Ganghellor yng Ngogledd Iwerddon ydoedd. Ei swydd yw:

- darparu cymorth gweinyddol i lysoedd Gogledd Iwerddon, sef y Llys Apêl, yr Uchel Lys, Llys y Goron, y Llysoedd Sirol, Llysoedd Ynadon, a Llysoedd Crwneriaid;
- darparu cymorth gweinyddol i dribiwnlysoedd;
- gorfodi dyfarniadau llysoedd sifil drwy'r Swyddfa Gorfodi Dyfarniadau; a
- noddi gwaith Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol Gogledd Iwerddon.

Ym 1978, unwyd gweinyddiaeth y llysoedd ac, ym 1979, sefydlwyd NICTS gan Ddeddf Barnweinyddiad (Gogledd Iwerddon) 1978, a hynny fel gwasanaeth sifil ar wahân yng Ngogledd Iwerddon. Cyn hynny, clytwaith oedd y system lysoedd yng Ngogledd Iwerddon. Newidiodd rheolau a chyfrifoldebau NICTS yn sylweddol. Ar ôl datganoli plismona a chyfiawnder i Gynulliad Gogledd Iwerddon ym mis Ebrill 2010, newidwyd enw Gwasanaeth Llysoedd Gogledd Iwerddon i 'Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Gogledd Iwerddon', gan sefydlu gweinyddiaeth unedig i lysoedd a thribiwnlysoedd - daeth yn asiantaeth yn yr Adran Gyfiawnder. NICTS sy'n rhedeg y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Mae asiantaeth NICTS yn gweithredu o fewn y Gyfarwyddiaeth Mynediad at Gyfiawnder yn Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon, sydd hefyd yn cynnwys pum is-adran bolisi, a Swyddfa'r Arglwydd Brif Ustus.

Mae datganoli wedi bod yn gyfle da i wneud deddfau sy'n effeithio ar y gymuned. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl teilwra polisiau yn

ôl anghenion penodol Gogledd Iwerddon. Er enghraifft, o ran diwygio cymorth cyfreithiol, mae Gogledd Iwerddon yn mabwysiadu polisïau gwahanol i'r rhai a gyflwynir yn Lloegr.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Mynediad at Gyfiawnder yn yr Adran Gyfiawnder yn noddi gwaith Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol Gogledd Iwerddon. Bob blwyddyn ers i'r Comisiwn gael ei sefydlu yn 2003, aethpwyd y tu hwnt i'r gyllideb, gan olygu bod angen bron i £150 miliwn o gyllid ychwanegol. Erbyn 2013-14, disgwylir y bydd y Comisiwn yn gwneud arbedion effeithlonrwydd o bron i £30 miliwn, a disgwylir y bydd tua £18 miliwn o'r arbedion hyn yn deillio o'r Rheolau newydd ynghylch tâl, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2011.

Yn hanesyddol, gwariwyd y rhan fwyaf o'r gyllideb cymorth cyfreithiol ar achosion troseddol; mae'r rhan fwyaf o waith NICTS yn gysylltiedig â hynny. O hyn ymlaen, bydd llawer mwy o bwyslais yn cael ei roi ar gynorthwyo pobl i gael mynediad at y cyngor cyfreithiol priodol. Bydd awdurdodaeth y Llysoedd Sirol yn cael ei chynyddu yng Ngogledd Iwerddon.

Ar hyn o bryd, mae NICTS yn bwriadu newid system y llysoedd, a'u lleoliad, gan roi pwyslais ar sefydlu'r swyddfeydd cyfun, a fyddai'n darparu'r cymorth gweinyddol ac yn cynnal gwrandawiaidau achosion yn yr un lle. Bydd hyn yn gwella'r mynediad at gyfiawnder mewn cymunedau (yn enwedig cymunedau gwledig) ac yn sicrhau mai tua hanner awr fydd yr amser y bydd ei angen ar gyfartaledd i deithio i swyddfeydd o'r fath.

Yng Ngogledd Iwerddon, bwriedir rhoi terfyn ar wahaniaethu rhwng y manau y caiff achosion sifil a throseddol eu clywed, a fydd yn fodd i wneud arbedion mawr (Bydd Clercod Llysoedd ar gael i glercio'r ddau fath o achosion). Buddsoddodd Gogledd Iwerddon mewn ailgymhwyso Clercod i'w galluogi i redeg y swyddfeydd cyfun hyn. Cynghorir y dylai Cymru gael yr un cyd-gyfleusterau o ran cynnal gwrandawiaidau, a fyddai'n golygu bod modd cynnal pob gwrandawiad lleol yn yr hyn a elwir yn 'Ganolfannau Cyfiawnder' cyfun. Dylai'r canolfannau hyn allu cyfuno'r gwaith o ddarparu amgylchedd da i staff weithio ynddo ac o ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd.

Ar hyn o bryd, mae llysoedd Gogledd Iwerddon wedi'u rhannu'n ardaloedd, ag iddynt ffiniau diffiniedig. Y nod yw dileu'r ffiniau hyn. Cynghorir y dylai Cymru sicrhau bod cymaint o hyblygrwydd â phosibl yn ei system lysoedd o'r cychwyn – mae'n bwysig canoli'r system er mwyn sicrhau ei bod yn bosibl clywed achos yn unrhyw le (drwy gyswllt fideo ac yn y blaen, os oes angen). Bydd hyn yn sicrhau bod gan y boblogaeth fynediad safon uchel at gyfiawnder.

Hyd yma, mae'r tribiwnlysoedd yng Ngogledd Iwerddon wedi cael eu rhedeg gan adrannau'r Llywodraeth. Bellach, mae NICTS yn dod yn gyfrifol amdanynt. Fodd bynnag, yn wahanol i Gymru a Lloegr, nid oes gan Ogledd Iwerddon dribiwnlysoedd yr Haen Gyntaf a'r Haen Uchaf. Ceir barn ymysg y farnwriaeth fod Tribiwnlysoedd yr Haen Gyntaf yn ddigon, heb hawl awtomatig i gael mynediad at yr Haen Uchaf.

Mae nifer o swyddfeydd cyfreithwyr bach, gwledig yng Ngogledd Iwerddon, ac, os bydd y cymorth cyfreithiol yn cael ei leihau, bydd y llif arian yn dioddef. Hefyd, yn wleidyddol, mae pobl o'r farn ei bod yn angenrheidiol gallu dewis eu cynrychiolydd eu hunain yn hytrach na bod cynrychiolydd yn cael ei neilltuo iddynt. Felly, cynghorir y dylai Cymru, wrth gynnal y system cyfreithwyr ar ddyletswydd, gadw hyn mewn cof.

## **Atodiad 4: Gofynion awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân; y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Carswell**

### 1. Y Farnwriaeth

Barnwriaeth ar wahân, gan gynnwys barnwriaeth y gwrandawriad cyntaf a'r farnwriaeth apeliadol. Mae materion sy'n gofyn am ystyriaeth yn cynnwys:

Penodi - comisiwn penodiadau i'r farnwriaeth, neu broses arall; y cwestiwn sydd wedyn yn codi yw pwy sydd â'r gair olaf wrth wneud penodiad: ai'r Arglwydd Ganghellor, y Prif Weinidog neu berson arall (caiff penodiadau gan y Frenhines eu gwneud ar argymhelliad Gweinidog)? A all y person hwnnw wrthod argymhelliad y comisiwn penodiadau neu dim ond cyfeirio'r argymhelliad yn ôl i gael ei ystyried eto?

Cymhwyster ar gyfer penodiad - ai dim ond aelodau'r Bar Lleol fyddai'n gymwys, neu a fyddai aelodau o'r bar yn Lloegr hefyd yn gymwys?

### 2. Mae materion sy'n gofyn am ystyriaeth yn cynnwys:

Cymhwyster ar gyfer cael galwad i'r Bar;  
Cwnsler y Frenhines neu berson tebyg, a phwy sy'n penodi neu'n argymhell y person hwnnw i gael ei benodi;  
Hawl i ymddangos gan Fariau eraill (gan ystyried gofynion yr UE), a hawl pobl o'r fath i gael eu galw i'r Bar yng Nghymru;  
Cyfleusterau hyfforddi, cyn ac ar ôl yr alwad;  
Strwythur cwyno a chosbi;  
Corff cyfwerth â Chyngor y Bar i lywodraethu dros y Bar;  
Ysbyty'r brawdlys neu gorff corfforaethol arall.

### 3. Cyfreithwyr

Ystyriaethau tebyg i'r rhai mewn perthynas â bargyfreithwyr, corff corfforaethol fel Cymdeithas y Cyfreithwyr, gofynion derbyn, hyfforddiant, cwynion a disgyblaeth.

#### 4. Rheolau'r llys

Byddai angen rheolau llys ei hun ar system gyfreithiol ar wahân, yn ogystal â chorff sy'n gwneud rheolau.

#### 5. Gweinyddu llysoedd

Sefydliad hunan-gynwysedig, wedi'i ariannu a'i benodi'n lleol, i redeg y llysoedd a gweinyddu'r farnwriaeth (mae'n bosibl na fydd gwasanaeth y llysoedd sydd eisoes yn bodoli yn ddigonol).

#### 6. Deunyddiau cyfreithiol lleol

Byddai angen llyfrau testun mewn perthynas â'r corff lleol o gyfreithiau a llyfrau statud gydag amser.

#### 7. Gwasanaeth Erlyn y Goron

Twrnai cyffredinol i arwain gwasanaeth cyfreithiol y Goron, cyfarwyddwr erlyniadau cyhoeddus ac adrannau erlyniadau cyhoeddus, Swyddfa'r Goron i fynd i'r afael â materion cyfreithiol y Llywodraeth, gwasanaeth cyfiawnder ieuencid ac ombwdsmyrn neu arolygwyr amrywiol i oruchwylio a rheoleiddio agweddau gwahanol ar y gyfraith a'r proffesiwn cyfreithiol.

#### 8. Comisiwn y gyfraith

Mae'n debygol y bydd angen corff i ystyried datblygiad y gyfraith a gwneud argymhellion i'r Cynulliad.

Byddai'n rhaid trafod yr holl bethau hyn yng nghyd-destun materion o ran dileu awdurdodaeth llysoedd a chyrrff proffesiynol yn Lloegr a graddau awdurdodaeth Senedd y DU dros faterion cyfreithiol Cymreig. Byddai hynny'n gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol yn Senedd y DU.

Mae ffynonellau yng Ngogledd Iwerddon yn cynnwys Deddf Llywodraeth Iwerddon 1920, Deddf Barnweiniäeth (Gogledd Iwerddon) 1978, Deddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2002 a llyfrau testun fel cyhoeddiadau Sir Arthur Quekett a Harry Calvert.



## **Atodiad 5: Papur briffio y Gwasanaeth Ymchwil: Cyrff cyfreithiol ac adnoddau yn Jersey, Guernsey ac Ynys Manaw**

---

Mae'r nodyn hwn yn cynnwys gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am y cyrff cyfreithiol amrywiol sy'n bodoli a'r adnoddau cyfreithiol sydd ar gael ym mhob un o Ddibynwledydd y Goron yn y DU (Jersey, Guernsey ac Ynys Manaw).

### **Jersey**

#### ***Comisiwn y Gyfraith yn Jersey***

Cafodd [Comisiwn y Gyfraith yn Jersey](#) ei sefydlu gan gynnig a osodwyd gerbron Taleithiau Jersey, ac fe'i cymeradwywyd gan Gynulliad y Taleithiau ar 30 Gorffennaf 1996. Mae'r Comisiwn yn cynnwys chwe aelod.

Er bod y Comisiwn yn ymgynghori'n agos â'r Panel Cyngori ar Ddeddfwriaeth, sydd hefyd yn trefnu ei gyllid ac yn gweithredu fel modd o gyfathrebu â'r Taleithiau, mae'n gorff annibynnol.

Caiff rôl y Comisiwn ei diffinio yn ei gylch gorchwyl:

“It shall be the duty of the Commission to identify aspects of Jersey law which it considers should be examined with a view to their development and reform, including in particular the elimination of anomalies, the repeal of obsolete and unnecessary enactments, the reduction of the number of separate enactments and generally the simplification and modernisation of law, and to those ends:

- (a) To receive and consider any proposals for the reform of the law which may be made or referred to them;
- (b) To prepare and submit to the Legislation Advisory Panel from time to time programmes for the examination of different branches of the law with a view to reform; and
- (c) To undertake, pursuant to any such recommendations approved by the Legislation Advisory Panel, the examination of particular branches of the law, such consultation thereon

as the Commission shall think fit, and the formulation by means of draft bills or otherwise of proposals for such reform.”<sup>112</sup>

### ***Bwrdd Gwybodaeth Gyfreithiol Jersey***

Mae gan Jersey [Fwrdd Gwybodaeth Gyfreithiol](#) hefyd, sef yr ystorfa ar gyfer holl ddeddfau a phenderfyniadau Ynys Jersey. Mae'r wefan yn cynnwys adran agored sy'n cynnig mynediad at ddeddfwriaeth Jersey, dyfarniadau gan lys yr ynys, gwybodaeth am system llysoedd Jersey, manylion am gwmnïau cyfreithiol, arweiniad ar brosesau cyfryngu a chyngor ac arweiniad cyfreithiol cyffredinol i ddinasyddion a mynediad at y *Jersey and Guernsey Law Review*. Mae'r wefan hon hefyd yn cynnwys adran gaeedig lle gall tanysgrifwyr a defnyddwyr cofrestredig eraill gael mynediad at fannau eraill, gan gynnwys y Cyfreithiau Anodedig, sy'n cysylltu cyfraith achosion â statud, adroddiadau cyfreithiol swyddogol Jersey a llyfrgell gyfreithiol o destunau, llyfrau a sylwebaethau Jersey. Yn ôl y wefan, “[the site is] presented to the legal and related professions as well as to the public generally so as to maximise access to legal information and services.”<sup>113</sup>

### ***Cymdeithas Cyfreithwyr Jersey***

[Cymdeithas Cyfreithwyr Jersey](#) yw corff llywodraethu cyfreithwyr sy'n gweithio fel Adfocadau a Chyfreithwyr Llys Brenhinol Jersey. Caiff yr holl aelodau eu harwain gan God Ymddygiad Cymdeithas Cyfreithwyr Jersey a *Deddf Adfocadau a Chyfreithwyr (Jersey) 1997*, fel y'i diwygiwyd.

### ***Jersey and Guernsey Law Review***

Cafodd y *Jersey Law Review* ei sefydlu yn 1997, ond newidiodd ei enw ym mis Ionawr 2007 i'r *Jersey and Guernsey Law Review*. Yn ôl gwefan Bwrdd Gwybodaeth Gyfreithiol Jersey:

“The change was brought about by the desire of many lawyers in both Jersey and Guernsey to work more closely together and

---

<sup>112</sup> Comisiwn y Gyfraith yn Jersey, [Annual Report for 2009](#), Atodiad B

<sup>113</sup> Bwrdd Gwybodaeth Gyfreithiol Jersey, [Home Page](#)

to emphasize the common elements of the jurisprudence of both bailiwicks.”<sup>114</sup>

Cafodd cyfrol gyntaf y cyhoeddiad ar ei newydd wedd ei chyhoeddi ym mis Chwefror 2007. Nodir mai bwriad y cyhoeddiad yw hyrwyddo datblygiad cyfreithiau Jersey a Guernsey ac annog diddordeb ynddynt.<sup>115</sup> Mae'r wefan hefyd yn darparu ychydig o wybodaeth gefndirol am ddatblygiad annibyniaeth farnwrol Jersey a Guernsey:

Mae hanes ymreolaeth wleidyddol ac annibyniaeth farnwrol Jersey a Guernsey yn dechrau ym 1204. Yn y flwyddyn honno, collodd Brenin John o Loegr ddugiaeth Normandi (a oedd yn cynnwys Ynysoedd y Sianel ar y pryd) i Philippe Auguste, Brenin Ffrainc. Rhoddodd Brenin John, a oedd yn ceisio cynnal teyrngarwch yr Ynyswyr i'w Brenin/Dug, nifer o freintiau cyfansoddiadol iddynt. Sefydlodd weinyddiaethau ar wahân ar gyfer pob beiliaeth a dyfarnodd y byddent yn parhau i gael eu llywodraethu o dan eu cyfreithiau eu hunain, sef cyfraith arferol Normandi yn y bôn. O'r amser hwnnw ymlaen, mae systemau cyfreithiol y ddwy Ynys wedi datblygu o systemau sy'n briodol ar gyfer economïau amaethyddol ynysol i systemau sydd wedi'u haddasu at ddibenion canolfannau ariannol rhyngwladol sy'n ffynnu.

O'r gwreiddyn cyffredin hwn yng nghyfraith arferol Normandi, felly, mae cyfreitheg y ddwy feiliaeth yn Jersey a Guernsey wedi datblygu. Mae beiliaeth Guernsey yn cynnwys dwy ynys lai Alderney a Sark, ac mae gan bob un ei hymreolaeth ei hun mewn rhai ffyrdd. I ddechrau, mae'n ymddangos yn syfrdanol fod ardal fechan Ynysoedd y Sianel yn cynnwys dwy system farnwrol wahanol a dau corpora juris (pedwar, o ystyried y rheolau gwahanol ar gyfer yr ynysoedd llai) sydd wedi bodoli ers dros 800 o flynyddoedd.<sup>116</sup>

## Guernsey

Yn wahanol i Jersey, nid oes gan Guernsey Gomisiwn Diwygio'r Gyfraith ei hun. Fodd bynnag, gellir dod o hyd i wybodaeth am

---

<sup>114</sup> Bwrdd Gwybodaeth Gyfreithiol Jersey, [Jersey and Guernsey Law Review](#)

<sup>115</sup> Ibid

<sup>116</sup> Ibid

gyfreithiau Guernsey a swydd Adfocad Guernsey drwy wefan y [Guernsey Bar](#). Mae'r wefan hefyd yn nodi manylion aelodau'r Bar a manylion holl gwmnïau cyfreithiol Guernsey.

### ***Adnoddau cyfreithiol Guernsey***

Hefyd, gellir dod o hyd i gasgliad cynhwysfawr o ddeunyddiau cyfreithiol ynghylch Guernsey ar wefan [Adnoddau cyfreithiol Guernsey](#). Mae'r wefan yn cynnwys:

- Cyfreithiau Guernsey, Alderney, Sark a chyfreithiau'r feiliaeth sydd wedi'u pasio a'u cyhoeddi ers 1950 yn ogystal â rhai eitemau allweddol cynharach.
- Ordinhadau Guernsey, Alderney, Sark ac ordinhadau'r feiliaeth sydd wedi'u pasio a'u cyhoeddi ers 1950 yn ogystal â rhai eitemau allweddol cynharach.
- Offerynnau Statudol Guernsey ac Offerynnau Statudol y feiliaeth sydd wedi'u pasio a'u cyhoeddi ers 1974.
- Fersiynau cyfunol answyddogol o gyfreithiau o 1950 ac Ordinhadau o 1950
- Gorchmynion y Llys Brenhinol o 1949 ymlaen.
- Cyfarwyddiadau Arfer o'r Llys Brenhinol o 2000 ymlaen.
- Dyfarniadau heb eu hadrodd o lysoedd Guernsey o 2004 ymlaen ac o'r Llys Apêl rhwng 1964 ac 1989.
- Cyfnodolion Cyfraith Guernsey o 1985 tan y rhifyn olaf yn 2000, gan gynnwys testun Dyfarniadau'r Llys Apêl rhwng 1989 a 2000.
- Linc i'r *Jersey and Guernsey Law Review*.

Mae'r wefan hon yn fenter ar y cyd rhwng Llys Brenhinol Guernsey a Swyddogion Cyfreithiol y Goron. Yn ôl y wefan, mae ei nod yn adlewyrchu ymrwymiad y Llys Brenhinol a'r Swyddogion Cyfreithiol fel a ganlyn: i wella'r broses o weinyddu cyfiawnder ar yr ynys drwy hwyluso mynediad at rai o'r deunyddiau cyfreithiol a ddefnyddir fwyaf aml.<sup>117</sup>

---

<sup>117</sup> Guernsey Legal Resources, [Home Page](#)

## Ynys Manaw

Nid oes gan Ynys Manaw Gomisiwn Diwygio'r Gyfraith na gwefan bwrpasol sy'n cynnig gwybodaeth am y gyfraith ar yr ynys. Fodd bynnag, mae gwybodaeth am system gyfreithiol yr ynys ar wefan [Llywodraeth Ynys Manaw](#).

### *Cymdeithas Cyfreithwyr Ynys Manaw*

Cafodd [Cymdeithas Cyfreithwyr Ynys Manaw](#) ei sefydlu ym 1859 gan *Ddeddf Cymdeithas y Cyfreithwyr 1859*. Yn 2008, roedd y Gymdeithas yn cynnwys 171 o Adfocadau wrth eu gwaith, 17 o Adfocadau nad ydynt wrth eu gwaith, 4 aelod cysylltiol a 32 o aelodau sy'n fyfyrwyr.<sup>118</sup>

---

<sup>118</sup> Cymdeithas Cyfreithwyr Ynys Manaw, [History & Structure](#)

## Atodiad 6: Papur briffio y Gwasanaeth Ymchwil: System Gyfreithiol Canada

---

### Y System Ffederal<sup>119</sup>

Mae dwy lefel lywodraethol i ffederaliaeth yng Nghanada a gydnabyddir yn gyfansoddiadol: ffederal a thaleithiol. Mae gan y wlad hefyd ddwy ffurf lywodraethol arall, sef tiriogaethol a lleol, na chydabyddir yn gyfansoddiadol.

### *Lefel Ffederal y Llywodraeth*

Y lefel lywodraethol gyntaf a gydnabyddir yn gyfansoddiadol yw'r llywodraeth ffederal neu genedlaethol. Mae'r lefel hon yn gyfrifol am ddeddfu a gweithredu cyfreithiau ar ran yr holl wlad. Drwy wneud hyn, rhoddir pwerau ac awdurdodaeth gyfansoddiadol unigryw i'r llywodraeth ffederal, y gall eu harfer yn annibynnol ar lefel daleithiol y llywodraeth.

**Senedd genedlaethol** Canada, sydd wedi'i lleoli yn Ottawa, prifddinas y wlad, yw prif sefydliad y llywodraeth ffederal. Mae'n cynnwys y Frenhiniaeth (a'i chynrychiolydd ffederal, y Llywodraethwr Cyffredinol) a dwy siambr ddeddfu, sef Tŷ'r Cyffredin a'r [Senedd](#).

Y Brenin/Brenhines yw pennaeth y wladwriaeth ar gyfer y llywodraeth ffederal; fodd bynnag, mae ei rôl yn un seremonïol yn bennaf o dan system lywodraethu gyfoes Canada. Mae'r rhan fwyaf o'r pŵer ffederal yn nwylo'r Prif Weinidog a'r Cabinet, yn ogystal â'r siambr ddeddfu etholedig, sef Tŷ'r Cyffredin. Mae'r Senedd, sef yr ail ddeddfwrfa ffederal, yn gorff a benodir ac mae ganddi lawer llai o bŵer na Thŷ'r Cyffredin, a gaiff ei ethol.

### *Lefel Daleithiol y Llywodraeth*

Mae llywodraethau taleithiol yn ffurfio'r ail lefel lywodraethu yng Nghanada a gydnabyddir yn gyfansoddiadol. Ceir 10 talaith yng

---

<sup>119</sup> Mapleleafweb, [Federal Government in Canada: Organization, Institutions & Issues, 2009](#) [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

Nghanada, ac mae gan bob un ei llywodraeth daleithiol ei hun: Columbia Brydeinig, Alberta, Saskatchewan, Manitoba, Ontario, Quebec, Y Tir Newydd a Labrador, Nova Scotia, Brunswick Newydd, ac Ynys y Tywysog Edward. Mae'r llywodraethau taleithiol hyn yn deddfu ac yn gweithredu cyfreithiau o fewn eu tiriogaeth daleithiol benodol, ac mae ganddynt eu pwerau eu hunain a gydnabyddir yn gyfansoddiadol, y gallant eu rhoi ar waith yn annibynnol ar y llywodraeth ffederal, ac ar ei gilydd.

Mae gan bob llywodraeth daleithiol ei chynulliad deddfu ei hun, sydd wedi'i leoli ym mhrifddinas daleithiol pob talaith. Mae gan bob talaith **Brif Weinidog a Chabinet**.

### ***Llywodraethau Tiriogaethol***

Ceir tair tiriogaeth yng Nghanada, ac mae gan bob un ohonynt ei llywodraeth ei hun: yr Yukon, Tiriogaethau'r Gogledd-orllewin, a Nunavut. Yn yr un modd â'r llywodraethau taleithiol, mae'r rhain yn llywodraethau rhanbarthol sy'n gyfrifol am ddeddfu a gweithredu cyfreithiau o fewn eu hardal diriogaethol benodol. Yn wahanol i'r taleithiau, fodd bynnag, ni chaiff tiriogaethau eu cydnabod yn gyfansoddiadol fel endidau gyda'u pwerau a'u hawdurdodaethau ymreolaethol eu hunain. Yn hytrach, daw'r tiriogaethau o dan awdurdodaeth ddeddfwriaethol y llywodraeth ffederal, sy'n gyfrifol am greu tiriogaethau a phennu eu fframwaith sylfaenol.

Yn ymarferol, fel arfer rhoddir nifer o'r breintiau a roddir i daleithiau hefyd i'r tiriogaethau. Mae gan bob un ei chynulliad deddfwriaethol ei hun, sydd â'r pŵer i ddeddfu o fewn y diriogaeth. Mae gan bob un ei **Phrif Weinidog a'i Chabinet** ei hun.

Gan na chydabyddir tiriogaethau yn gyfansoddiadol fel llywodraethau ymreolaethol, mae eu statws o fewn ffederaliaeth Canada yn dechnegol israddol. O'r herwydd, nid oes gan y tiriogaethau lais cyfreithiol mewn perthynas â diwygiadau cyfansoddiadol ynghylch gwahanu'r pwerau rhwng y lefelau llywodraethu ffederal a thaleithiol. Fodd bynnag, mae'n arfer cyffredin cynnwys y llywodraethau tiriogaethol mewn cyfarfodydd rhyng-lywodraethol a phrosesau gwneud penderfyniadau.

## **Llywodraethau Lleol**

Y math olaf o lywodraeth yng Nghanada yw llywodraeth leol, sy'n cynnwys cynghorau, byrddau ac asiantaethau bwrdeistrefol, sir/plwyf a lled-ranbarthol. Mae llywodraethau lleol yn dod o dan awdurdodaeth y taleithiau a'r tiriogaethau, a hwy sy'n gyfrifol am greu llywodraethau lleol a phennu eu fframwaith sylfaenol.

### **Rhannu pwerau**

Darparwyd sylfeini cyntaf ffederaliaeth Canada ar adeg y Cydffederasiwn drwy *Ddeddf Gogledd America Prydeinig 1867* (a ailenwyd ym 1982 yn *Ddeddf Cyfansoddiad 1867*). *Pennodd y Ddeddf hon bwerau awdurdodaeth llywodraethu ffederal a thaleithiol.*

O ran y taleithiau, rhoddodd **Adran 92 o'r Ddeddf** 16 o bwerau wedi'u rhifo i bob talaith. Mae hyn yn cynnwys rheolaeth ddeddfwriaethol dros faterion fel ysbytai, ysbytai meddwl, elusennau, sefydliadau bwrdeistrefol, carchardai, ac eiddo a hawliau sifil, ymysg eraill. Rhoddodd Adran 92 awdurdodaeth unigryw i'r taleithiau yn yr ardaloedd hyn, sy'n golygu mai hwy yn unig, ac nid y llywodraeth ffederal, all ddeddfu'n gyfansoddiadol ynddynt.

Mae **Adran 93 o'r Ddeddf** yn rhoi awdurdodaeth unigryw i'r taleithiau dros addysg, sy'n caniatáu i lywodraethau taleithiol strwythuro a rheoli eu systemau addysg eu hunain.

Yn ogystal â'r ardaloedd hyn sydd ag awdurdodaeth unigryw, roedd **Adran 95 o'r Ddeddf** yn darparu ar gyfer dau **bŵer cydredol** ym meysydd amaethyddiaeth a mewnfudo. Mae'r term "pwerau cydredol" yma yn golygu bod gan y ddwy lefel lywodraethol hyn hawl gyfansoddiadol i ddeddfu yn y meysydd hyn. Mewn geiriau eraill, mae'n faes awdurdodaeth a rennir y gall y llywodraeth ffederal a'r taleithiau ddeddfu yn ei gylch.

Yng nghyd-destun pwerau ariannol, rhoddwyd **pwerau trethu** cyfyngedig yn unig i'r taleithiau. Roedd Adran 92 o'r Ddeddf yn cyfyngu'r taleithiau i "drethu uniongyrchol" yn unig er mwyn codi refeniw at ddiben taleithiol. Bu'r cwestiwn ynghylch beth yw "trethu uniongyrchol" at ddibenion y Ddeddf yn fater pwysig mewn ffederaliaeth yng Nghanada, ac fe'i hadolygwyd sawl gwaith gan farnwriaeth Canada. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o'r taleithiau'n



codi treth incwm a threth gorfforaethol, a threth gwerthu ar gyfnewid nwyddau a gwasanaethau, yn ogystal â chodi refeniw drwy drwyddedau a ffioedd eraill.

Mae **Adran 91 o'r Ddeddf** yn ymdrin â phwerau ffederal, ac mae dwy ran iddi. Yn gyntaf, mae'r **Gorchymyn Heddwch, a'r cymal Llywodraeth Dda** (y cyfeirir ato'n gyffredinol fel y "cymal POGG") yn nodi bod yr holl bwerau na chânt eu rhoi i'r taleithiau yn Adran 92 yn cael eu cadw gan y llywodraeth ffederal. Dim ond y llywodraeth ffederal, ac nid y taleithiau, allai ddeddfu'n gyfansoddiadol yn y meysydd hyn.

Mae Adran 91 o'r Ddeddf yn mynd ymlaen i restru 29 enghraifft o bwerau ffederal. Mae'r rhain yn cynnwys rheoleiddio masnach, y gwasanaeth post, cyfrifiadau ac ystadegau, y fyddin, mordwyaeth a llongau, pysgodfeydd morol, ar yr arfordir ac ar y tir, yr Indiaid a thir wedi'i warchod, a chyfraith droseddol, ymysg llawer. Yn olaf, rhoddodd **Adran 132 o'r Ddeddf** y pŵer i'r llywodraeth ffederal weithredu cytuniadau rhyngwladol.

Yn wahanol i'r taleithiau, rhoddwyd pwerau trethu eang iawn i'r llywodraeth ffederal. Mae Adran 91 o'r Ddeddf yn nodi y gall y llywodraeth ffederal godi arian drwy unrhyw ddull neu system drethu. Gall hyn gynnwys ffurfiau ar drethu uniongyrchol, fel treth incwm a chorfforaethol, yn ogystal â threthu anuniongyrchol, fel dyletswyddau a ffioedd.

Ers y Cydffederasiwn, bu nifer o ddiwygiadau cyfansoddiadol mewn perthynas â rhannu pwerau rhwng y llywodraeth ffederal a'r llywodraethau taleithiol.

Roedd y rhan fwyaf o'r diwygiadau hyn yn ymwneud â rheolaeth ffederal-taleithiol dros fudd-daliadau cymdeithasol, a bu iddynt arwain at ehangu pŵer ffederal. Yn 1940, ychwanegwyd y pŵer dros **yswiriant diweithdra** i'r rhestr o bwerau ffederal unigryw o dan Adran 91 o'r Ddeddf. Yn flaenorol, roedd y llysoedd wedi dyfarnu bod yswiriant diweithdra yn dod o dan awdurdodaeth y taleithiau. Ym 1951, gwnaethpwyd **pensiynau i'r henoed** yn bŵer cydredol, a oedd yn golygu y gallai'r naill lefel o lywodraeth a'r llall ddeddfu yn y maes hwn. Yn flaenorol, bu'r rheolaeth dros bensiynau yn bŵer taleithiol unigryw o dan Adran 92 o'r Ddeddf. Cafodd y pwerau

ffederal dros bensiynau eu hehangu ymhellach ym 1964, pan roddwyd caniatâd i ddeddfu yn y meysydd budd-daliadau i weddwon a goroeswyr a phensiynau anabled.

Mae maes pwysig arall o newid cyfansoddiadol yn canolbwyntio ar y broses o ddiwygio cyfansoddiadol. Ym 1949, rhoddwyd caniatâd i'r Senedd ffederal ddiwygio'r Cyfansoddiad mewn modd unochrog mewn meysydd sy'n gyfrifoldeb i'r llywodraeth ffederal yn unig. Roedd y pŵer hwn yn nwylo Senedd Prydain yn flaenorol. Fodd bynnag, apelwyd yn erbyn y diwygiad hwn ym 1982 pan fabwysiadodd y llywodraeth ffederal a'r taleithiau **fformiwlâu newydd i ddiwygio'r cyfansoddiad**. Mae'r fformiwlâu hyn yn bwysig yng nghyd-destun ffederaliaeth, gan eu bod yn pennu hawliau pob lefel o'r llywodraeth mewn perthynas â newid y Cyfansoddiad. Er enghraifft, er mwyn gwneud unrhyw newid i'r Cyfansoddiad sy'n effeithio ar un neu fwy o'r taleithiau, mae angen lefel benodol o gydsynio gan y taleithiau yr effeithir arnynt.

Yn ogystal â'r fformiwlâu diwygio newydd, effeithiodd y diwygiadau i'r cyfansoddiad ym 1982 ar ffederaliaeth yng Nghanada hefyd yn y meysydd adnoddau naturiol a gwahaniaethau rhanbarthol. O dan y diwygiadau hyn, ehangwyd pwerau'r taleithiau dros eu **hadnoddau naturiol**, er bod y llywodraeth ffederal yn parhau i gadw rhywfaint o bŵer yn y maes hwn. Ymhellach, roedd Adran 36 o *Ddeddf Cyfansoddiad 1982* yn cynnwys ymrwymiad gan y ddwy lefel o lywodraeth i leihau'r gwahaniaethau economaidd a'r mynediad anghyfartal at wasanaethau cyhoeddus rhwng y rhanbarthau yng Nghanada. Yn ogystal, roedd y Ddeddf hefyd yn cynnwys ymrwymiad ar ran y llywodraeth ffederal i'r egwyddor o wneud **taliadau cydraddoli** i sicrhau bod gan lywodraethau'r taleithiau ddigon o arian i ddarparu lefelau cymharol o wasanaethau cyhoeddus.

## **Traddodiadau'r Gyfraith Gyffredin a Chyfraith Sifil**<sup>120</sup>

### ***Traddodiad y gyfraith gyffredin***

Mae system gyfreithiol Canada yn deillio o nifer o systemau Ewropeaidd a gyflwynwyd i Ogledd America yn yr ail ganrif ar

---

<sup>120</sup> Llywodraeth Canada, [Ministry of Justice, Canada's System of Justice](#) [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

bymtheg a'r ddeunawfed ganrif gan fforwyr a gwladychwyr. Ar ôl Brwydr Quebec ym 1759, daeth y wlad bron yn gyfan gwbl o dan gyfraith Lloegr. Ar wahân i yn Quebec, lle mae'r gyfraith sifil yn seiliedig ar God Ffrengig Napoléon, mae cyfraith droseddol a chyfraith sifil Canada yn seiliedig ar gyfraith gyffredin a chyfraith statudol Lloegr.

### ***Traddodiad y gyfraith sifil***

Cafodd Cod Sifil Quebec, a wnaed yn ddeddf ym 1866 ychydig cyn y Cydffederasiwn ac a ddiwygiwyd o bryd i'w gilydd, ei adolygu'n drylwyr yn ddiweddar. Fel yn achos pob cod sifil, fel Cod Napoléon yn Ffrainc, mae'n cynnwys datganiad cynhwysfawr o'r rheolau, y mae nifer ohonynt wedi'u llunio ar ffurf egwyddorion eang cyffredinol i ymdrin ag unrhyw anghydfod a allai godi. Yn wahanol i lysoedd y gyfraith gyffredin, mae'r llysoedd mewn system cyfraith sifil yn edrych ar y Cod yn gyntaf, ac yna'n cyfeirio at benderfyniadau blaenorol i sicrhau cysondeb.

Defnyddir y term "cyfraith sifil" i olygu dau beth eithaf gwahanol. Defnyddir y term weithiau i gyferbynnu â'r "gyfraith gyffredin" i gyfeirio at y system gyfreithiol sy'n seiliedig ar god sifil, fel y Cod Iwstinian neu God Sifil Quebec. O ran ei ail ystyr, mae cyfraith sifil yn cyfeirio at faterion yn ymwneud â chyfraith breifat, yn hytrach na chyfraith gyhoeddus, ac yn benodol cyfraith droseddol, sy'n ymwneud â'r niwed i'r gymdeithas yn gyffredinol. Mae fel arfer yn glir o'r cyd-destun pa fath o gyfraith sifil sydd o dan sylw.

Bu i *Ddeddf Quebec 1774* wneud Canada yn wlad â dwy gyfraith. Nododd *Deddf Quebec* y dylid defnyddio'r gyfraith gyffredin y tu allan i Quebec ar gyfer materion yn ymwneud â chyfraith breifat, tra bo'n rhaid ymdrin â materion tebyg yn Quebec o dan gyfraith y Cod Sifil. Ar gyfer y gyfraith gyhoeddus, ar y llaw arall, dylid defnyddio'r gyfraith gyffredin yn Quebec a'r tu allan iddi.

### **Y Strwythur Cyfreithiol**

#### ***Sut y trefnir y llysoedd***

Rhennir yr awdurdod cyfansoddiadol dros y system gyfreithiol yng Nghanada rhwng y llywodraethau ffederal a thaleithiol yn y modd hwn:

- Mae gan y llywodraeth ffederal awdurdod unigryw i benodi a thalu barnwyr y llysoedd uwch neu lefel uchaf yn y taleithiau. Mae gan y Senedd yr awdurdod hefyd i sefydlu llys apêl cyffredinol a llysoedd i weinyddu cyfreithiau Canada yn well. Mae wedi defnyddio'r awdurdod hwn i greu Goruchaf Lys Canada, y Llys Ffederal a'r Llys Apêl Ffederal, yn ogystal â'r Llys Trethi. Yn ogystal, fel rhan o'i bŵer o ran cyfraith droseddol, mae gan y Senedd awdurdod unigryw dros y weithdrefn mewn llysoedd troseddol. Mae'r awdurdod ffederal dros y gyfraith a'r weithdrefn droseddol yn sicrhau ymdriniaeth deg a chyson o ymddygiad troseddol ledled y wlad.
- Mae gan y taleithiau awdurdodaeth dros weinyddu cyfiawnder yn y taleithiau, gan gynnwys trefnu a chynnal a chadw'r llysoedd taleithiol sifil a throseddol a'r weithdrefn sifil yn y llysoedd hynny.



Ffynhonnell: Gweinyddiaeth Gyfiawnder Canada

### ***Beth y mae'r llysoedd ffederal yn ei wneud?***

Rhoddodd *Deddf Cyfansoddiad* 1867 awdurdod i'r Senedd sefydlu llys apêl cyffredinol i Ganada, yn ogystal â llysoedd ychwanegol i weinyddu cyfreithiau Canada yn well.

Mae **Goruchaf Lys Canada** yn gweithredu fel y llys apêl terfynol yng Nghanada. Mae ei naw barnwr yn cynrychioli pum prif ranbarth y wlad, ond rhaid i dri ohonynt fod o Quebec, er mwyn cydnabod y system cyfraith sifil. Fel llys uchaf y wlad, mae'n gwrando ar apelau

ar benderfyniadau'r llysoedd apêl yn yr holl daleithiau a thiriogaethau, yn ogystal â'r Llys Apêl Ffederal. Barn y Goruchaf Lys yw'r farn derfynol.

Fel arfer, rhaid i bartïon wneud cais am ganiatâd (neu hawl) i wneud apêl i farnwyr y Goruchaf Lys. Mewn rhai achosion troseddol, mae'r hawl i wneud apêl wedi'i sicrhau.

Ail swyddogaeth y Goruchaf Lys yw penderfynu ar gwestiynau pwysig ynghylch y Cyfansoddiad a meysydd dadleuol neu gymhleth mewn cyfraith breifat a chyhoeddus. Gall y llywodraeth hefyd ofyn i'r Goruchaf Lys am ei farn ynghylch cwestiynau cyfreithiol pwysig.

Sefydlodd y llywodraeth ffederal hefyd y **Llys Ffederal**, y **Llys Apêl Ffederal**, a'r **Llys Trethi**. Mae'r Llys Ffederal yn arbenigo mewn meysydd fel cyfraith eiddo deallusol a chyfraith forol, a dadleuon ffederal-taleithiol, tra bo'r Llys Trethi yn arbenigo mewn achosion trethi. Mae'r Llys Apêl Ffederal yn adolygu penderfyniadau'r ddau lys hyn, yn ogystal â thribywnlysoedd gweinyddol a benodir gan y llywodraeth ffederal, fel y Bwrdd Apêl ar Fewnfudo a'r Bwrdd Parôl Cenedlaethol.

### ***Llysoedd taleithiol a thiriogaethol***

Er nad yw enwau'r llysoedd hyn yr un fath ym mhob talaith, mae'r system llysoedd yn gyson, i raddau helaeth, ledled Canada. Ceir dwy lefel i'r system: llysoedd taleithiol a llysoedd uwch.

### ***Llysoedd taleithiol***

Bydd y rhan fwyaf o achosion troseddol yn cael eu clywed mewn llysoedd taleithiol, ac, mewn rhai taleithiau, clywir achosion sifil sy'n ymwneud â symiau bychan o arian. Gall llysoedd taleithiol hefyd gynnwys llysoedd arbenigol, fel llysoedd ieuenctid, llysoedd teuluol a llysoedd mân-hawliadau. Mae'r llywodraethau taleithiol yn penodi barnwyr ar gyfer y llysoedd taleithiol.

### ***Y llysoedd uwch***

Mae gan y llysoedd uwch, sef y lefel uchaf mewn talaith, y pŵer i adolygu penderfyniadau'r llysoedd taleithiol neu'r llysoedd is. Mae'r llywodraeth ffederal yn penodi'r barnwyr i'r llysoedd hyn, a phennir eu cyflogau gan y Senedd.

Rhennir y llysoedd uwch yn lefel achosion a lefel apêl. Mae'r lefel achosion yn gwrando ar achosion sifil a throseddol ac mae ganddi'r awdurdod i ganiatáu ysgariadau. Mae'r lefel apêl yn gwrando ar apelau sifil a throseddol o'r llys achosion uwch. Gellir trefnu'r lefelau hyn yn ddau lys ar wahân: gelwir y llys achosion yn Goruchaf Lys neu'n Llys Mainc y Frenhines a gelwir y llys apêl yn Llys Apêl. Mewn rhai taleithiau, ceir un llys, a elwir yn Goruchaf Lys fel arfer, sydd ag isadran achosion ac isadran apelau.

Mae llysoedd Canada yn ymdrin ag achosion sifil a throseddol. Mewn achosion sifil neu breifat sy'n ymwneud â thorri contract neu honiadau eraill o niwed (camwedd), bydd y llysoedd yn gweithredu egwyddorion y gyfraith gyffredin mewn naw talaith ac yn y tiriogaethau. Yn Quebec, mae'r llysoedd yn gweithredu *Cod Sifil Quebec*. Ar y llaw arall, mewn achosion troseddol neu gyhoeddus, gweithredir y gyfraith gyffredin ledled Canada.

## **Y System Gyfreithiol Ddwyeithog**<sup>121</sup>

Mae'r llysoedd ffederal yn dehongli'r cyfreithiau a gaiff eu llunio, eu drafftio a'u mabwysiadu yn y ddwy iaith swyddogol. Mae'r fersiynau yn y ddwy iaith â'r un awdurdod. Fel y gwelir uchod, mae system gyfreithiol Canada yn seiliedig ar ddau draddodiad cyfreithiol: traddodiad y gyfraith sifil, sy'n gymwys yn Quebec, a thraddodiad y gyfraith gyffredin, sy'n gymwys yng ngweddill Canada. Tra bo'r Llys Ffederal a'r Llys Apêl Ffederal yn gwrando ar achosion sy'n ddarostyngedig i ddeddfwriaeth ffederal yn unig, gellir galw ar y Goruchaf Lys i ddehongli deddfwriaeth sy'n seiliedig ar y naill draddodiad cyfreithiol neu'r llall. Caiff y rhan fwyaf o ddeddfwriaeth ffederal ei drafftio ar y cyd yn hytrach na'i llunio mewn un iaith ac yna ei chyfieithu i'r llall.

### ***Y Defnydd o Ieithoedd Swyddogol***

Mae'r defnydd o ieithoedd swyddogol yn y system gyfreithiol yn dibynnu ar y math o lys o dan sylw a natur yr achos. Dywedodd Vanessa Gruben o Brifysgol Ottawa:

**“The Right to Use English or French**

---

<sup>121</sup> Tŷ'r Cyffredin Canada, [Library of Parliament, Bilingualism in the Federal Courts](#), 30 Tachwedd 2011 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

The right for everyone to use his or her language of choice before federal courts extends to litigants, lawyers, witnesses, judges and other officers of the court. The federal government has the authority to regulate the language used before "federal courts" and in relation to "criminal procedure" ... Parliament also has the authority to legislate language usage in certain administrative tribunals."<sup>122</sup>

Yn y llysoedd ffederal, penderfynir ar yr hawl i ddefnyddio'r Saesneg neu'r Ffrangeg ar sail nifer o ffactorau, ac mae'n cynnwys pawb sy'n rhan o'r system gyfreithiol, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau.

### ***Cyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig***

Mae'r gofynion iaith yn berthnasol i **bob gohebiaeth ysgrifenedig** (ee, gŵys) yn ogystal â gohebiaeth gan y partïon, cyflwyniadau llafar, datganiadau a phapurau briffio. Nid ydynt yn gymwys i dystiolaeth. Gall gohebiaeth lafar ac ysgrifenedig mewn llysoedd ffederal fod yn Saesneg neu'n Ffrangeg. Mae Adran 133 o'r Cyfansoddiad yn cynnwys yr hawl i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall mewn unrhyw blediad neu broses. Caiff y gofyniad hwn ei gynnwys yn y Siarter Hawliau a Rhyddidau ("y Siarter") hefyd, sy'n cyfeirio at yr hawl i ddefnyddio'r Saesneg a'r Ffrangeg mewn achosion a thrafodion, yn ogystal â *Deddf Ieithoedd Swyddogol 1998*.

Cynigir gwasanaethau **cyfieithu a chyfieithu ar y pryd** mewn rhai amgylchiadau i sicrhau bod hawliau ieithyddol yn cael eu parchu. Caiff yr hawl i gael cymorth gan gyfieithydd ar y pryd yn ystod trafodion ei warantu gan y Siarter. Fodd bynnag, rhaid gwahaniaethu rhwng hawliau ieithyddol y sawl a gyhuddir (hynny yw, yr hawl i gyfleu ei hun yn ei famiaith) a'r hawl i gael treial teg (hynny yw, yr hawl i ddeall ac i gael eich deall). Ym 1999, gwnaeth Goruchaf Lys Canada grynhoi'r gwahaniaeth hwn yn achos *Beaulac*:

"The right to a fair trial is universal and cannot be greater for members of official language communities than for persons speaking other languages. Language rights have a totally distinct origin and role. They are meant to protect official

---

<sup>122</sup> Vanessa Gruben, "Bilingualism and the Judicial System", yn *Language Rights in Canada*, gol. Michel Bastarache, ail olygiad, Les Éditions Yvon Blais, Cowansville, 2004, p. 150

language minorities in this country and to insure the equality of status of French and English."<sup>123</sup>

Mae'r Ddeddf Ieithoedd Swyddogol a'r Cod Troseddol ("y Cod") yn darparu ar gyfer gwasanaethau cyfieithu ar gais ar gyfer dogfennau'r llys, cyhuddiadau a gwybodaeth droseddol. Mae'r darpariaethau ar gyfer cyfieithu ar y pryd ar gael yn bennaf i alluogi tystion i gyfleu eu hunain ac i gael eu clywed heb ragfarn yn eu dewis iaith.

Yn ôl y Cod, mae gan y sawl a gyhuddir yr hawl i gael ei roi ar brawf yn ei iaith swyddogol ddewisol, waeth ym mhle yng Nghanada y cynhelir y treial. Rhaid hysbysu'r sawl a gyhuddir ynghylch yr hawl hwn.

### ***Dwyieithrwydd Sefydliadol***

Rhaid i Lysoedd Ffederal, fel sefydliadau, gyflawni'r goblygiadau a nodir yn y Ddeddf Ieithoedd Swyddogol. Rhaid i'w gweinyddiaeth **sicrhau y gellir clywed achos yn y naill iaith swyddogol neu'r llall**. Nid yw'n angenrheidiol i bob person sy'n eistedd ar y fainc fod yn ddwyieithog. Os caiff y cais ei gyflwyno o fewn yr amser a bennir, caiff ei gymeradwyo'n awtomatig. Os yw'r terfyn amser wedi mynd heibio, gall y llys barhau i gymeradwyo'r cais, er budd cyfiawnder. **Mae pob llys troseddol yng Nghanada yn ddarostyngedig i'r gofynion ieithyddol a amlinellir yn y Cod**. Dyfarnodd Goruchaf Lys Canada ar weithredu'r darpariaethau hyn yn achos *Beaulac*:

Mae Adran 530(1) yn creu hawl absoliwt i'r sawl a gyhuddir gael mynediad cyfartal i'r llys dynodedig yn yr iaith swyddogol y mae'n ystyried yn famiaith iddo. Felly, mae'n ofynnol bod y llysoedd sy'n gorfod ymdrin â materion troseddol yn sefydliadau dwyieithog fel y gallant ddarparu ar gyfer defnydd cyfartal o ddwy iaith swyddogol Canada.<sup>124</sup>

Felly, gellir cynnal treial troseddol yn gyfan gwbl mewn un iaith. Mae hynny'n ei gwneud yn ofynnol i lysoedd ffederal fod yn ddwyieithog.

---

<sup>123</sup> *R. v. Beaulac*, [1999] 1 S.C.R. 768, paragraff 41

<sup>124</sup> *R. v. Beaulac*, [1999] 1 S.C.R. 768, paragraff 41



Ar gyfer achosion sifil, mae'r Ddeddf Ieithoedd Swyddogol yn ei gwneud yn ofynnol bod sefydliadau ffederal yn defnyddio'r iaith swyddogol a ddewisir gan y partiön eraill, neu'r un y mae'n gwneud y synnwyr mwyaf i'w defnyddio o dan yr amgylchiadau.

Yn gyffredinol, caiff y dyfarniad mewn treial ei draddodi a'i gyhoeddi yn yr iaith y cynhaliwyd y treial ynddi. Rhaid cyhoeddi cyfieithiad o'r dyfarniad cyn gynted â phosibl. Nid ystyrir bod penderfyniad a draddodir mewn un iaith yn unig yn annilys cyhyd a'i fod yn parchu darpariaethau'r Ddeddf Ieithoedd Swyddogol.

Cyhoeddir dyfarniadau ffederal ar yr un pryd yn y ddwy iaith os ydynt yn cynnwys penderfyniad ynghylch cwestiwn cyfreithiol sydd o ddiddordeb neu bwysigrwydd i'r cyhoedd, os cynhaliwyd y trafodaethau yn y ddwy iaith swyddogol, neu os cafodd y trafodion eu llunio yn y ddwy iaith. Mae'r un safonau yn gymwys i'r penderfyniadau a gyhoeddir yn y cofnodion swyddogol ac ar-lein.

Mae'r Goruchaf Lys, y Llys Apêl Ffederal, y Llys Ffederal a'r Llys Trethi yng Nghanaada yn sefydlu eu rheolau eu hunain ynghylch y defnydd o'r naill iaith swyddogol neu'r llall. Rhaid i'r rheolau gweithdrefnol hyn fod yn ddwyieithog. Mae Adran 17 o'r Ddeddf Ieithoedd Swyddogol yn rhoi'r awdurdod i'r Llywodraethwr yn y Cyngor sefydlu rheolau o'r fath ar gyfer llysoedd eraill, ond ni ddefnyddiwyd yr awdurdod hwn hyd yn hyn.

### ***Penodi Barnwyr Dwyieithog***

Mae'r Llywodraeth ffederal yn gyfrifol am benodi barnwyr i'r fainc mewn llysoedd ffederal yn ogystal ag yn y llysoedd uwch a'r llysoedd apêl yn y taleithiau a'r tiriogaethau.

Oherwydd nad yw'r barnwyr a benodir i'r llysoedd ffederal yn gorfod sefyll prawf iaith ysgrifenedig, mae'n anodd gwybod faint ohonynt sy'n ddwyieithog. Flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae rhanddeiliaid wedi galw ar y Llywodraeth ffederal i benodi nifer ddigonol o farnwyr dwyieithog, yn enwedig yn y llysoedd a weinyddir yn y taleithiau.

Pan basiwyd y Ddeddf Ieithoedd Swyddogol ym 1998, gosododd y Llywodraeth ofyniad ar y llysoedd ffederal (ac eithrio'r Goruchaf Lys)

i farnwyr ddeall yr ieithoedd swyddogol heb gymorth cyfieithydd ar y pryd. Gall barnwr unieithog wrando ar achos os yw'n deall yr iaith a ddewiswyd gan y partion. Pan glywir achos yn y ddwy iaith, rhaid i'r barnwr dynodedig fod yn ddwyieithog. Rhoddwyd seibiant o bum mlynedd cyn y daeth y gofyniad hwn i rym. Bu'n rhaid i lysoedd ffederal ateb y gofyniad hwn ers 1993 a sicrhau bod digon o farnwyr cymwys i wrando ar achosion yn y naill iaith swyddogol neu'r llall.

Ym mis Mawrth 2011, dyfarnodd Llys Taleithiol Alberta yn achos *Pooran* a nododd y canlynol:

“If litigants are entitled to use either English or French in oral representations before the courts yet are not entitled to be understood except through an interpreter, their language rights are hollow indeed. Such a narrow interpretation of the right to use either English or French is illogical, akin to the sound of one hand clapping, and has been emphatically overruled by *Beaulac*.”<sup>125</sup>

Mae papur Tŷ'r Cyffredin Canada yn nodi:

“The lack of lawyers and judges who have a sufficient understanding of French and English is one of the primary obstacles to accessing justice in one’s own language. Other difficulties include institutional obstacles such as a lack of bilingual legal staff, a lack of bilingual legal or administrative resources, and the delays associated with choosing to proceed in one language rather than another. Despite the legislative and constitutional requirements in place, there are still limitations to accessing the courts in one’s language of choice. While many of the provinces and territories have legislative provisions that promote access to justice in both official languages, work remains to be done to ensure that everyone has equal access to justice in both languages across the country.”<sup>126</sup>

---

<sup>125</sup> *R. v. Pooran*, 2011 ABPC 77, paragraff 21

<sup>126</sup> Tŷ'r Cyffredin Canada, [Library of Parliament, Bilingualism in the Federal Courts](#), 30 Tachwedd 2011 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

## ***Y Goruchaf Lys***

Crëwyd Goruchaf Lys Canada ym 1875. Fe'i rheolir gan *Ddeddf y Goruchaf Lys*, **nad oes ganddo unrhyw ddarpariaethau ar ieithoedd swyddogol**. Tra bo'r Ddeddf Ieithoedd Swyddogol yn berthnasol i bob llys ffederal, nid yw'r Goruchaf Lys yn ddarostyngedig i adrannau 16 ac 17 o'r Ddeddf. Mae'r adrannau hyn yn amlinellu dyletswydd y llysoedd ffederal i sicrhau bod y barnwyr yn deall y trafodaethau heb gyfieithydd ar y pryd a'r awdurdod i wneud rheolau gweithredu.

Mae'r Goruchaf Lys wedi'i eithrio o'r gofynion hyn am nifer o resymau daearyddol a gweinyddol. Mae Adran 6 o Ddeddf y Goruchaf Lys yn amlinellu amodau penodol ynghylch cynrychiolaeth yn Quebec: rhaid i o leiaf dri barnwr ddod o Quebec. Yn ôl confensiwn, o'r chwe barnwr sy'n weddill, daw tri ohonynt o Ontario, un o daleithiau'r Iwerydd a dau o'r taleithiau Gorllewinol. Bydd naw barnwr y Goruchaf Lys yn aros yn eu swyddi nes eu bod yn 75 oed, ond gall y Llywodraethwr Cyffredinol eu disodli. Maent yn eistedd tair gwaith y flwyddyn.

Mae *Rheolau Goruchaf Lys Canada* yn nodi y gall parti ddefnyddio naill ai'r Saesneg neu'r Ffrangeg mewn gohebiaeth lafar neu ysgrifenedig rhyngddo a'r Llys, a bod yn rhaid darparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yn ystod gwrandawriad pob achos. Ers mis Mai 2008, cyflwynwyd chwe bil Aelod preifat yn Nhŷ'r Cyffredin Canada a oedd yn ceisio ei gwneud yn ofynnol bod barnwyr y Goruchaf Lys yn deall y ddwy iaith swyddogol, ond gwnaethant fethu.

## Atodiad 7: Briff y Gwasanaeth Ymchwil: Costau

---

Fel rhan o'i ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru, mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi mynegi diddordeb mewn deall beth fyddai'r gost o wneud hynny.

### Cost awdurdodaeth ar wahân i Gymru

#### *Data ariannol*

Nid yw'r term 'awdurdodaeth ar wahân i Gymru' wedi'i ddiffinio'n ffurfiol eto, a chafwyd amrywiaeth eang o ddiffiniadau yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad<sup>127</sup> ac yn y dystiolaeth lafar a gafwyd yn ystod ymchwiliad y pwyllgor. Maent yn amlygu'r ffaith y gallai awdurdodaeth i Gymru gynnwys trefn wedi ei datganoli'n llwyr, mwy o ymreolaeth o fewn awdurdodaeth gyffredin neu unrhyw drefn amgen. Roedd yr ymatebion hefyd yn amlygu'r opsiynau ynghylch a fyddai'r awdurdodaeth wedi ei chyfyngu i ymdrin â chyfraith sifil ac/neu gyfraith droseddol; pa lefelau o'r farnwriaeth fyddai'n cael eu cynnwys, ac a fyddai meysydd, fel y gwasanaeth carchardai, gwasanaeth yr heddlu a mewnfudo, yn cael eu cynnwys yn unrhyw awdurdodaeth o'r fath. O ganlyniad, **nid oes un ffynhonnell o wybodaeth sy'n crynhoi costau gwirioneddol sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru.** Yn ogystal, byddai'r costau sy'n debygol o fod ynghlwm wrth hynny yn deillio o amrywiol sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol Cymru ac adrannau o Lywodraeth y DU.

Mae'n anodd cymharu ag ardaloedd eraill y DU, gan fod y graddau y mae awdurdodaethau wedi'u datganoli yn amrywio yng ngwledydd y DU; yn ogystal, nid yw'r modd y mae gwariant yn cael ei gofnodi, o ran darparu'r swyddogaethau hyn, yn gyson yn y gwledydd o dan sylw. Er bod modd gweld bod mwyafrif y costau wedi eu cyfyngu i Gymru a Lloegr, mae rhai meysydd, fel y Goruchaf Lys, yn berthnasol i'r DU gyfan.

Mae prif ddata ariannol y ffynonellau canlynol i'w cael isod:

---

<sup>127</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru, Ymatebion i'r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ17 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

- CAFCASS Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae ganddo gyllideb o tua £9.6 miliwn ar gyfer 2012-13.
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a ariennir gan Lywodraeth y DU. Ei halldro terfyn gwariant adrannol (DEL) ar gyfer 2011-12 yw £9.2 biliwn ac mae £1.1 biliwn o hynny wedi'i wario gan Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi.
- Ariennir Comisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr gan Lywodraeth y DU. Mae ganddo gyllideb o £3.5 miliwn, o'i gymharu â £1.6 filiwn yn yr Alban a £1.0 filiwn yng Ngogledd Iwerddon.
- Mae data Datganiadau Ystadegol ar Wariant Cyhoeddus (PESA) ar wledydd y DU ar gyfer 2010-11 yn nodi bod llysoedd barn yng Nghymru yn gwario tua £300 miliwn o'i gymharu â £500 miliwn yn yr Alban, £300 miliwn yng Ngogledd Iwerddon a £5.4 biliwn yn Lloegr.
- Roedd gan adran gyfiawnder Gogledd Iwerddon £1.3 biliwn ar gyfer 2011-12. Roedd y gyllideb hon ar gyfer yr heddlu a'r gwasanaeth carchardai hefyd.
- Roedd gan adran gyfiawnder yr Alban £1.3 biliwn ar gyfer 2011-12. Nid oedd y gyllideb hon yn cynnwys arian ar gyfer yr heddlu a gwaith cymdeithasol y gwasanaeth cyfiawnder troseddol.
- Y Goruchaf Lys. Roedd ei alldro DEL ar gyfer 2011-12 yn £6.0 miliwn.

Byddai modd darparu dadansoddiad mwy manwl pe bai mwy o eglurder ynghylch pa gyfrifoldebau fyddai gan awdurdodaeth i Gymru.

### ***Ariannu pwerau datganoledig a Fformiwla Barnett***

Trysorlys Ei Mawrhydi sy'n gyfrifol am bolisi ariannol a macroeconomaidd a dyrannu gwariant cyhoeddus yn y DU. Mae'r arian i Gymru yn cael ei roi i Swyddfa Cymru yn dilyn pleidlais yn Senedd y DU. Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn cadw cyllid ar gyfer gwaith Swyddfa Cymru ac mae'r gweddill yn cael ei drosglwyddo i Gymru. Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n dyrannu cyllid i Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, Swyddfa Archwilio Cymru a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Adolygiadau o wariant gan Lywodraeth y DU sy'n pennu'r cyllid sydd ar gael i adrannau Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, ac

maent yn pennu'r swm cyffredinol o arian sydd ar gael i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae addasiadau i gyllideb Cymru yn cael eu pennu drwy Fformiwla Barnett<sup>128</sup> ac fe'u rhoddir ar waith yng nghyllideb sylfaenol Cymru. Mae'r fformiwla'n adlewyrchu newidiadau y mae Llywodraeth y DU yn eu gwneud ac yn eu rhoi ar waith mewn cyllidebau cymaradwy yng Nghymru.

Mae fformiwla Barnett yn pennu newidiadau i'r grant bloc, ond nid yw'n pennu ei swm yn gyffredinol ac, felly, nid fformiwla Barnett a ddefnyddir fel arfer wrth wneud penderfyniadau ar drosglwyddo pwerau. Yn ymarferol, mae hyn yn fater o drafodaeth rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Esboniodd Carwyn Jones, y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ ar y pryd, y gwahaniaeth rhwng cael cyllid ar gyfer pwerau datganoledig a 'osodir' ar Lywodraeth Cymru a chael cyllid ar gyfer y pwerau 'y gwnaed cais amdanynt'. Mae'r manylion am y sesiwn dystiolaeth lafar i'w cael isod.

Byddai sefydlu awdurdodaeth i Gymru yn senario newydd, ac nid oes cysail wedi ei osod ar gyfer hynny. Fodd bynnag, gallai trosglwyddiadau ar sail fformiwla Barnett arwain at lai o gyllid ar ei chyfer na'r gost o'i sefydlu. Er enghraifft, o edrych ar gyllideb Comisiwn y Gyfraith isod, byddai Cymru'n cael £0.2 miliwn o'i gymharu â chyllideb o £1.0 filiwn yng Ngogledd Iwerddon a £1.6 filiwn yn yr Alban:

Cyllideb o £3.5 miliwn Comisiwn y Cyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr	x	Gan gymryd bod modd eu cymharu 100%	x	5.92 % (poblogaeth Cymru fel cyfran o boblogaeth Cymru a Lloegr)	=
--	---	---	---	---	---

Yn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Cyllid ar y goblygiadau ariannol i Gymru o ganlyniad i Ffiliau'r DU yn 2009, nododd Carwyn Jones, a oedd bryd hynny yn Gwnsler Cyffredinol ac yn Arweinydd y Tŷ:

“What I can do, however, is to inform the committee regarding the approach that is taken generally when powers are devolved via not just Bills, but transfer of functions Orders.

<sup>128</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Gwasanaeth Ymchwil [Hysbysiad Hwylus: Cyfres y Gyllideb 1: Ariannu Cyllideb Cymru: Fformiwla Barnett](#) Awst 2012 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

Generally, the financial arrangements governing devolved administrations when it comes to transfers of functions are dealt with in the Treasury's 2007 statement of funding policy.

The exact details regarding whether we get any money or not depends on what sort of power is being transferred. For example, where a Bill transfers responsibility for existing functions from the UK Government to the Welsh Assembly Government—one example I can offer is the Fire and Rescue Services Act 2004; another example would be the devolution of animal health powers—then the budget transfer for those functions is a matter for negotiation between the Assembly Government and the UK Government. There is not a Barnett consequential as a result. So, there would be negotiation as to what sum should be transferred.

If a Bill introduced a new responsibility for the Assembly Government and the UK Government and, as a result of the introduction of that responsibility, a UK Government department received extra funding from the Treasury, then we would normally expect to get a share—a Barnett consequential—of any money that was given to a UK Government department. In the unlikely event of a UK Bill imposing duties on the Assembly Government without the Assembly Government's consent, then that would again come back to the statement of funding policy in terms of what moneys would then need to be transferred from the UK Government to the Welsh Assembly Government. However, I am not aware of any situation where there has been the direct imposition of a duty on the Assembly Government without the consent of the Assembly Government and included in a UK Bill."<sup>129</sup>

Mewn ymateb i gwestiynau pellach ar y mater gan Joyce Watson AC, aeth Carwyn Jones yn ei flaen i ddweud:

“The devolution of building regulations was requested by the Assembly Government, not imposed on it. It was known that the transfer of powers requested would have financial

---

<sup>129</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: y Pwyllgor Cyllid](#), 12 Hydref 2009 paragraffau 88 i 105 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

consequences. However, building regulations are an example of a transfer that does not represent a cost saving for a UK Government department. We are setting up a department to deal with building regulations here, but there is no obvious cost saving for the UK Government, which has transferred those regulations. Therefore, from the Assembly Government's point of view, we sought these powers knowing that we would have to finance them, but that was negotiated and known at the time of the discussions with the UK Government."<sup>130</sup>

Yn ogystal, nododd Arweinydd y Tŷ:

“Any responsible Government would examine the costs of taking on a power before deciding whether to take it on. I do not think that any responsible Government could say that it was in the business of acquiring as many powers as possible without examining the financial costs, particularly given the financial situation in which we find ourselves. So, whenever there is a proposal to acquire new powers, the cost of exercising those powers weighs heavily on the mind of the Assembly Government.”<sup>131</sup>

### **Ymatebion i'r ymgynghoriad**

Gwnaeth Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, waith ymgynghori fel rhan o'i ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru<sup>132</sup>. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Chwefror 2012. Fel rhan o'r ymgynghoriad, ceisiodd y Pwyllgor farn am fanteision posibl cyflwyno awdurdodaeth ar wahân i Gymru ac am y rhwystrau i'w sefydlu a'r gost o wneud hynny. Gellir dod o hyd i'r holl ymatebion ar wefan y Cynulliad, ond ceir crynodeb isod o rai o'r pwyntiau allweddol sy'n amlygu'r trafferthion wrth brisio system o'r fath:

Nododd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr:

---

<sup>130</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnod y Trafodion: y Pwyllgor Cyllid](#), 12 Hydref 2009 paragraff 92 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>131</sup> Ibid, paragraff 105

<sup>132</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru](#), Mawrth 2012 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]



“ICAEW Wales believes that it is critically important to make the operating environment for businesses in Wales simpler, rather than more complex. Businesses seeking to operate in more than local markets need fewer, not more, barriers to streamlining their operations and it is essential that they are not deterred from investing in Wales by the opportunity costs of meeting a different set of legislative requirements than in England.”<sup>133</sup>

Nododd Cymdeithas Cyngor Cenedlaethol yr Ynadon:

“The All Wales Convention Report in 2010 concluded that “a separate Welsh jurisdiction is not a precondition for the development of increased legislative competence, even if the Assembly were to acquire the substantial powers of the Scottish model.” As Magistrates serving in Wales we are not yet convinced there is a strong enough case made for such a change and moreover, **in terms of time and cost alone, we doubt if the case is yet strong enough to necessitate a new inquiry.**

A separate jurisdiction would become responsible for training and sentencing guidelines which would require a Judicial College for Wales and a Sentencing Council (Wales). This would have implications for consistency of approach and outcome.

Currently Wales does not have a sufficiently well developed infra-structure to support a fully devolved separate jurisdiction. The issue of prisons is paramount; there is no prison facility in north Wales. **The cost of developing a supportive infra-structure would be huge**, even when times are good, and in the current climate of austerity beyond reach.

There is much change currently underway in the HMCTS organisational structure and a proposal to initiate a separation of the jurisdiction will only result in a further lengthy and costly examination of issues and requirements (and undoubtedly a further lowering of morale for staff and users within the current

---

<sup>133</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i'r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ3 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

court system) **that we remain unconvinced that a proposal for a separate jurisdiction would be affordable, cost-effective or in the bests interest of the communities.**"<sup>134</sup>

Nododd y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Morris o Aberafan, KG, QC:

"It is not possible to estimate the cost of creating an "independent jurisdiction." **I surmise they would be considerable.**

It may be that a way forward is to delineate that part of the Ministry of Justice and the administrative machinery of the courts further to Wales. It would mean a recognition of the need for special provision for Wales given that the Assembly has law-making powers, as opposed to the present unitary jurisdiction. I am not competent to advise on such policies. **If the political will is there some practical progress could be achieved without incurring significant expenditure.**"<sup>135</sup>

Dyma'r ymateb gan 14 o Farnwyr Rhanbarth ledled Cymru:

"The cost implications of having a separate jurisdiction would in our view be considerable."<sup>136</sup>

Gofynnodd Dr Dominic De Saulles (Cyfreithiwr Eiriolwr) nifer o gwestiynau, gan gynnwys:

"What extra costs will be imposed on legal professionals who need to be fluent in two different sets of rules?"<sup>137</sup>

Nododd Dr Peter Freeman (ymateb personol):

"There is also the question of cost in a climate where every bit of expenditure should come under scrutiny and be questioned as to its necessity."<sup>138</sup>

---

<sup>134</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i'r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ5 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>135</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i'r ymgynghoriad: Ymateb ychwanegol WJ – Y gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Morris o Aberafan KG QC](#)

<sup>136</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i'r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ6 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>137</sup> Ibid, WJ4

Nododd David Hughes (ymateb personol – Bargyfreithiwr yng Nghaerdydd):

**“It is hard to see how the creation of our own jurisdiction could not bring with it control of the funding of access to justice.** Some might want to use this to introduce, for example, a Conditional Legal Aid Fund as used in Hong Kong and some Australian states. Others might want to reform personal injury law by introducing a New Zealand style no-fault compensation scheme and thereby abolishing personal injury litigation. However, some benefits are easily identifiable.”<sup>139</sup>

Nododd David Williams (ymateb personol – Barnwr Cylchdaith):

“The Committee may wish to explore with those who preside over and administer those systems the benefits, barriers, and costs that they as judges and administrators see as arising from this mesh of provision.”<sup>140</sup>

Nododd Christopher Morton (ymateb personol – Barnwr Cylchdaith):

“I have no expertise in this field. I simply make these possibly superficial points. The personnel, administration and buildings for all courts of first instance already exist. Is this a basis for arguing that a separate jurisdiction would not of itself increase cost at this level?

**A Welsh Court of Appeal would be new creature. Its creation must involve expenditure.** Could a reduction in the workload of the English Court of Appeal due to no longer having to handle Welsh appeals lead to a financial saving? If so it could properly be set off against the cost creating a Welsh court of Appeal. Would cross border sitting by judges at this level be acceptable and if so could that be used to reduce cost?”<sup>141</sup>

Nododd yr Athro R. Gwynedd Parry, (ymateb personol - Bargyfreithiwr)

---

<sup>138</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i'r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ1 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>139</sup> Ibid, WJ7

<sup>140</sup> Ibid, WJ12

<sup>141</sup> Ibid, WJ13

“Gellir, felly, gweld datblygiad yr awdurdodaeth Gymreig fel cyfle economaidd i'r proffesiwn cyfreithiol. Byddai'n cynnig her i'r proffesiwn i ddatblygu arbenigedd mewn meysydd newydd yn seiliedig ar ddeddfwriaeth Cymru. Mae'r cyfle economaidd yn allweddol i'r ddadl, ac, fel y dywedwyd, **'the contribution to the economy of Wales which a fully developed legal system would make would be substantial.'**<sup>142</sup>

Nododd Ei Anrhydedd y Barnwr Wyn Rees (ymateb personol):

“Heb os, byddai costau ynghlwm wrth sefydlu awdurdodaeth ar wahân ar gyfer Cymru a byddai angen gwneud asesiad manwl o'r costau hynny. Y brif fantais o sefydlu awdurdodaeth ar wahân fyddai dwyn y gyfundrefn cyfiawnder yn agosach at bobl Cymru a'i gwneud yn fwy atebol iddynt. Mantais bellach fyddai creu swyddi yng Nghymru ar gyfer y swyddogaethau hynny a gyflawnir, ar hyn o bryd, y tu allan i Gymru.”<sup>143</sup>

Nododd yr Anrhydeddus Mr Ustus Roderick Evans (ymateb personol):

“There would be a cost to the creation of a jurisdiction but I am unable to comment on that save to say that many of the necessary functions are already being carried out in London and transferring them to Wales would be unlikely to incur more than start up costs. Also to be considered are the benefits from new jobs and career structures, the ability to offer our young people the opportunity of employment in fields or at levels in those fields previously unavailable in Wales and the tailoring of a legal system to the specific demographic, geographic and linguistic needs of Wales.

The arguments referred to in the Scoping Paper advanced by Jack Straw MP against creating a Welsh jurisdiction are exaggerated and unpersuasive. The matters to which he refers are readily accommodated in relation to other jurisdictions –

---

<sup>142</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i'r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ14 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>143</sup> Ibid, WJ12

for example Northern Ireland – and could be equally well accommodated in relation to a Welsh jurisdiction.”<sup>144</sup>

Nododd Cymdeithas Barnwyr Cymru:

“We are unable to comment on the costs of creating a Welsh jurisdiction or the cost of strengthening legal institutions in Wales were Wales to remain within the present jurisdiction. Either option is likely to have cost implications but there are positive matters which would offset any such costs. Firstly, bringing the administration of justice closer to the people of Wales and the creation of jobs and career structures in Wales would have important socio-economic benefits. Secondly, the development of improved structures for the administration of justice would have wider economic advantages, not only to the legal profession, but to those industries which support the administration of justice. Thirdly, there is an inevitable cost of administering and hearing Welsh cases in London and hearing and administering those cases in Wales is unlikely to increase the basic costs although there would be start-up costs for the offices, for example, of the High Court and Court of Appeal.

We do not regard the arguments against creating a separate Welsh jurisdiction referred to by Jack Straw MP and quoted in paragraph 6 of the Scoping Paper to be “overwhelming.” Indeed, the matters raised by him have all been dealt with in the context of other jurisdictions in the UK.”<sup>145</sup>

Nododd Cymdeithas y Cyfreithwyr:

“The costs will depend upon the extent to which the Welsh jurisdiction is entirely separate (something that may be easier to achieve in the lower courts than in the county or High Court) or can use the existing mechanism and resources from the current jurisdiction. It may well be a gradual process. In Wales there are already a number of separate Welsh tribunals. These tribunals are demonstrating the pros and cons of a separate system, for example the Welsh policies developed in the areas in which the tribunals operate are readily applied to the hearing

---

<sup>144</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i'r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ19 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>145</sup> Ibid, WJ20

and resolution of cases. However, the small number of members of each tribunal does have an effect particularly on the costs e.g. the cost per head of training is likely to be higher. The evidence of the Chairmen of the Welsh tribunals might inform the Committee on the success or otherwise of the operation of these tribunals although the Wales only tribunals do not operate in a way that is directly similar to a Welsh courts and tribunals' service.

Another body which gives a useful example of the operation of a separate justice organisation within Wales is CAF/CASS Cymru the family courts service. This is the responsibility of the Welsh Government and knowledge of the experience of running this service may usefully be gleaned by the Committee.

A separate jurisdiction would raise the question of whether there needed to be a separate regulatory system for legal services providers and a different system for qualification. In the context of a smaller legal profession, the costs of this might well be considerable, particularly if a number of its members wished also to practise in England and were to face a double regulatory cost. It might, however, be possible to adapt the existing structures that work for both England and Wales, at least in the first instance, to apply to both jurisdictions. There would be an impact on legal education: would all courses in Wales offer only Welsh legal qualifications? The teaching of a bilingual approach to law-making and the use of Welsh in providing legal services and in representing persons through the courts and tribunals would receive renewed attention.

The Law Society promotes the benefits of the jurisdiction of England and Wales on a global stage. The law in England and Wales is transparent, predictable, flexible and supports the needs of modern commerce; in addition English is the language of international business. These features make England and Wales a highly attractive jurisdiction in which to resolve disputes. By creating a "separate Welsh jurisdiction" the benefits of this might be lost and Wales could be perceived as a difficult place to do business. Conversely, economic and social advantages may flow from developing the legal profession in

Wales and in the development of law that is suited to the particular situation in Wales.”<sup>146</sup>

Nododd Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Bangor:

“A high proportion of Welsh claimants and solicitors choose to issue their claims in London. There may be a number of reasons for this, i.e. the gravitas attached to litigating at the Royal Courts of Justice in London and concern for the quality and consistency of justice dispensed by judges outside London. Lack of awareness may be another factor. Approximately half of all claims involving a Welsh public authority or the Welsh Assembly Government are issued in London and the factor seemingly most influential in the choice of issue location is the instruction by Welsh defendants of London-based specialist barristers.

Approximately half the Cardiff Court’s current caseload stems from outside Wales. To an extent this work, originating in England, is subsidising access to justice in Wales by ensuring a large enough caseload for the Cardiff Court to remain a going concern. If the Cardiff were to lose its competence with respect to cases under the law of England or the law of England and Wales pertaining mainly to England, Cardiff would lose this work. Similarly public law practitioners in Wales would be less inclined to advise English clients losing out on business.

At present approximately five claims per-annum originate in North Wales and most of these are issued in Manchester due to geographical convenience, though hearings take place in North Wales. Were Cardiff to have exclusive competence over Welsh claims this might reduce access to justice for claimants and legal advisers based in North Wales.”<sup>147</sup>

Nododd Mr Emyr Lewis a'r Athro Dan Winton (Prifysgol Caerdydd):

“Detailed analysis is needed of how cross-border issues work between current UK jurisdictions, and how these might work

---

<sup>146</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i'r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ21 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

<sup>147</sup> Ibid, WJ24

for a Welsh jurisdiction and of the likely economic costs and benefits of a distinct Welsh jurisdiction.

If there were to be a distinct Welsh jurisdiction, the Northern Ireland model seems a suitable precedent. This would have implications for the Supreme Court.

In order to understand properly the implications of a distinct Welsh jurisdiction, there is a lot of detailed work that needs to be done. In our view, the two areas which require the closest attention are cross border issues and costs.

Jack Straw, as quoted in the Committee's scoping paper, has spoken of "enormous practical implications" of a move to a separate Welsh jurisdiction. The issues he raises are largely technical matters relating to the relationship between the courts in England (where, of course, a new jurisdiction will also be created) and those in Wales. He is undoubtedly right in raising the issues. Once more, however, there are precedents. There is no reason in principle why cross-border issues between Wales and other jurisdictions within the UK should not be treated in the same way as those between the three existing jurisdictions. We need to understand how these work, and whether and to what extent they would need to apply differently to Wales, bearing in mind for instance that Wales' land border with England is longer and more densely populated than Scotland's.

In relation to costs, there is a need for a detailed analysis of the current economics of the administration of justice in England and Wales. Suitable methods for allocating current expenditure equitably between England and Wales would need to be considered in order to determine how much better or worse off Wales might be if it had its own court system with its own budget. To what extent might savings in London overheads be outweighed by loss of economies of scale? To what extent might it be possible to direct funding to issues such as



ensuring access to justice to people in remote and deprived communities?"<sup>148</sup>

## Datblygiadau diweddar

Mae Canolfan Llywodraethiant Prifysgol Caerdydd, y Sefydliad Materion Cymreig a Cymru Yfory wedi sefydlu'r prosiect 'DG: Undeb sy'n Newid'. Mae'r gweithgor agweddau cyfreithiol, sy'n rhan o'r prosiect Undeb sy'n Newid, yn canolbwyntio ar waith Comisiwn Silk, ac mae'r gweithgor wedi gwahodd tendr i gomisiynu papurau yn y meysydd canlynol:

- Pwerau a Gedwir a Chydsyniad Deddfwriaethol
- Deall cwnpas a chost awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru

Roedd y papurau a gomisiynwyd i'w cyflwyno erbyn 31 Hydref 2012.

Mae'r prosiect 'DG: Undeb sy'n Newid' hefyd wedi comisiynu prosiect ymchwil gan y gweithgor ar gapasiti, atebolrwydd a phwerau. Bydd adroddiad y prosiect yn amlinellu ffyrdd y gall cyfraith Ewrop, polisi a pherthynas sefydliadau yn Ewrop a Chymru effeithio ar lywodraethu datganoledig a sut y'i rhoddir ar waith yng Nghymru. Mae disgwyl i'r adroddiad gael ei gyflwyno erbyn 31 Tachwedd 2012.

## Casgliad

Nid yw'n bosibl amcangyfrif cost 'awdurdodaeth ar wahân i Gymru' tan y caiff ei diffinio. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriadau, sy'n cael eu crynhoi yn adran 4, yn amlygu rhai o'r heriau ychwanegol wrth bennu'r costau a'r manteision posibl. Ceir data ariannol manwl yn Atodiad B ar feysydd y gellir eu cynnwys mewn awdurdodaeth o'r fath. Ceir hefyd ddata ariannol ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon, lle mae awdurdodaethau ar wahân. Serch hyn, nid yw'r data hyn o reidrwydd yn gymaradwy.

---

<sup>148</sup>Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru: Ymatebion i'r ymgynghoriad](#), Mawrth 2012, WJ28 [fel ar 5 Rhagfyr 2012]

